ADOLYGIAD O ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU

RHAGAIR

i Ar 1af Hydref 2008, cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn adolygu Addysg Uwch ei gynigion manwl ar gyllido myfyrwyr. Yna, dechreuodd y Grŵp ei waith ar Gam Dau, sef Adolygiad lefel uchel o "genhadaeth, diben, swyddogaeth a chyllid ar gyfer addysg uwch yng Nghymru". Yr oeddem yn ymwybodol o'r amser byr a oedd ar gael ar gyfer yr Adolygiad ac am yr amgylchiadau economaidd, ariannol a gwleidyddol mor gyfnewidiol yr oeddem yn gweithredu ynddynt. Yn yr wythnos cyn cwblhau'r Adroddiad hwn cafwyd nifer o ddatblygiadau newydd yn cynnwys, ymysg pethau eraill, cyhoeddiad am ymrwymiad i greu sefydliad addysg uwch cyfun newydd yn y Gorllewin a chyhoeddi Cyllideb y DU.

ii Rydym ni, fel grŵp, wedi ceisio cymryd safbwynt tymor hir o ran diben a gweithrediad addysg uwch yng Nghymru. Rydym wedi nodi cryfderau a gwendidau yn y perfformiad presennol, dan arweiniad y polisi *Anelu'n Uwch*, ac wedi archwilio nifer o feysydd yn fanwl drwy gyfrwng cyfres o fewnbwn ysgrifenedig gan randdeiliaid, grwpiau ffocws[1], cyflwyniadau, a chyfres o bapurau trafod. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom a'r cyflwyniadau a glywsom wedi cyfrannu at yr argymhellion manwl a gyflwynwn yma. Fodd bynnag, credwn fod y mewnbwn a dderbyniwyd, a'r papurau trafod, yn bwydo proses barhaus yn hytrach nag un derfynol. Er mwyn datblygu a chyfrannu at ddatblygiadau i'r dyfodol, caiff y papurau trafod hyn eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol agos.

iii Mae'r Adroddiad hwn hefyd yn awgrymu dull strategol, newydd, o gyflawni'r canlyniadau dymunol yr ydym wedi'u nodi, sef dull cenedlaethol o gyflawni newid sylfaenol yn llwyddiant addysg uwch yng Nghymru. Gwelwch ein bod yn argymell creu Compact Cenedlaethol er mwyn cyflawni hyn[2].

iv Roedd yn amhosibl peidio â bod yn ymwybodol o'r goblygiadau ariannol tymor hir a thymor byr i'r sector cyhoeddus yn sgil yr amgylchiadau economaidd difrifol presennol. Rydym felly'n croesawu'n gynnes y polisïau a fabwysiadwyd i ddiogelu cyllid ychwanegol i Addysg Uwch yn y dyfodol ar ôl Cam Un yr Adroddiad hwn. Mae Cam Dau'n nodi'r meysydd blaenoriaeth lle y gellid buddsoddi'r cyllid ychwanegol hwn, ac unrhyw gynnydd pellach mewn cyllid, ond rydym yn ymwybodol nad oedd y penderfyniadau manwl a'r dyraniadau yn hyn o beth yn fater ar

[1] Gweler Atodiad 1 i gael manylion am y broses o gysylltu â rhanddeiliaid.

[2] Yn amlwg, byddai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn chwarae rôl allweddol mewn unrhyw gompact strategol o'r fath. Fodd bynnag, yr oeddem yn ymwybodol bod Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu CCAUC yn yr arfaeth ac yr oeddem o'r farn y byddai ein hawgrymiadau a'n dyheadau yn hyn o beth yn ddefnyddiol i'r broses Adolygu'r Trefniadau Llywodraethu ac y byddai'r gwaith cefndir manwl a wnaethom yn bwydo i ffrydiau gwaith yn y dyfodol wrth inni symud ymlaen i gyflawni ein hamcanion strategol ar y cyd.

gyfer y grŵp adolygu. Roeddem hefyd yn ymwybodol iawn y byddai angen dyrannu'n effeithiol ac yn effeithlon unrhyw adnodd pellach a fyddai ar gael er mwyn cyflawni canlyniadau strategol.

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

1 Paratowyd yr Adroddiad hwn yng nghyd-destun cythrwfl ariannol eithriadol ac ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Felly, roedd yn gyfnod heriol i gynnal adolygiad o addysg uwch yng Nghymru. Mae economi Cymru a'r byd yn cael ei herio a'i hail-lunio mewn ffordd nas gwelwyd ers cenedlaethau, gyda goblygiadau difrifol ynghylch sut i fuddsoddi a pha fuddsoddiad i'w wneud, a sut mae'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau'n ymddwyn ac yn rhyngweithio.

2 Fodd bynnag, a chofio'r amgylchiadau presennol a chan gydnabod na ellir cynnal "busnes fel arfer", ceisia'r adroddiad hwn beidio â chael ei lethu gan yr argyfwng presennol. A dweud y gwir, mae'r heriau a wynebwn wedi gweithredu fel catalydd. Maent wedi tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol o gael sector addysg uwch sy'n gallu gyrru perfformiad economaidd gwlad, drwy sgiliau ei raddedigion a thrwy ymelwa ar ymchwil, gan leihau effaith dirywiad economaidd.

3 Am y rheswm hwn, rydym wedi arddel safbwynt tymor hir a lefel uchel. Dechreuasom drwy ystyried beth ddylai fod diben addysg uwch. O hynny, rydym wedi llunio ein dyheadau ar gyfer y genhadaeth, diben, swyddogaeth a chyllid addysg uwch yng Nghymru. Credwn, gyda'r gefnogaeth, yr arweiniad, y cydweithrediad a'r ymrwymiad cywir gan yr holl bartneriaid, fod gan addysg uwch yng Nghymru y potensial i gyflawni'r diben hwn a chwarae rôl flaenllaw wrth weddnewid Cymru yn wlad ffyniannus a llwyddiannus sy'n cael ei chydnabod yn fyd-eang am ei chyflawniadau.

ADRAN 2: DIBEN A DYHEADAU

4 Fel grŵp, gwnaethom gytuno ei bod yn hanfodol dechrau drwy ddiffinio diben addysg uwch yng Nghymru. Gwnaethom archwilio adolygiadau tebyg o Addysg Uwch (AU) yn yr Alban, Awstralia a Lloegr cyn llunio ein datganiadau conglfaen. Diben addysg uwch yw:

creu'r amgylchedd i herio a chefnogi unigolion i gyflawni'r lefelau uchaf o fodlonrwydd personol a deallusol, waeth o ble y maent yn dod

meithrin ymchwil ac archwilio sy'n cyfrannu at gyfanswm gwybodaeth ddynol, p'un ai a ddefnyddir y darganfyddiad deallusol ar y pryd neu'n uniongyrchol ai peidio

datblygu gwybodaeth, sgiliau lefel uchel a dealltwriaeth o unigolion er mwyn gyrru economi sy'n gallu addasu, sy'n gynaliadwy ac sy'n arloesol

ymelwa ar wybodaeth ac arbenigedd er mwyn gyrru twf economaidd cynaliadwy a chreu cyfoeth

helpu i feithrin cymdeithas ddemocrataidd, wâr a chynhwysol sy'n cydnabod hunaniaeth ddiwylliannol amrywiol ac sy'n dathlu creadigrwydd diwylliannol

chwarae rôl arweiniol wrth sicrhau bod Cymru'n cael ei chydnabod fel cyfrannwr gwerthfawr at y gymuned fyd-eang

5 A chofio swyddogaeth a diben addysg uwch, y trefniadau cyfansoddiadol sy'n llywodraethu ei gweithrediad, a'r arian cyhoeddus a dderbynia, mae dyletswydd ar sefydliadau addysg uwch i wneud y canlynol:

gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau ac arddangos trefn lywodraethu ac arweiniad o ansawdd uchel.

6 Ar sail y datganiadau hyn o ddiben ac atebolrwydd, cyflwynasom ein dyheadau ar gyfer addysg uwch yng Nghymru:

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**
Creu'r amgylchedd i herio a chefnogi unigolion i gyflawni'r lefelau uchaf o fodlonrwydd personol, deallusol ac addysgol, waeth o ble y maent yn dod	Cydnabyddir yn rhyngwladol bod ansawdd y dysgu ac addysgu o'r lefel uchaf Gall pob un fyddai'n gallu cael budd o addysg uwch wneud hynny Mynediad ar gael at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ehangaf posibl i bawb sy'n dymuno manteisio ar hynny

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**
Meithrin ymchwil ac archwilio sy'n cyfrannu at gyfanswm gwybodaeth ddynol, p'un ai a ddefnyddir y darganfyddiad deallusol ar y pryd neu'n uniongyrchol ai peidio.	Caiff Cymru ei chydnabod yn rhyngwladol am ei rhagoriaeth ym maes ymchwil, gan ddenu'r ymchwilwyr gorau a chreu cymuned ymchwil ffyniannus a bydd hynny, yn ei dro, yn meithrin cryfder academaidd i'r dyfodol

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**
Datblygu gwybodaeth, sgiliau lefel uchel a dealltwriaeth unigolion er mwyn gyrru economi sy'n gallu addasu, sy'n gynaliadwy ac sy'n arloesol	Caiff llwyddiant economaidd ei gryfhau gan sgiliau uchel, drwy raglenni a luniwyd ac a ddarparwyd ar y cyd â chyflogwyr, a thrwy dargedu meysydd o angen strategol y cytunwyd arnynt.

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**
Ymelwa ar wybodaeth ac arbenigedd er mwyn gyrru twf economaidd cynaliadwy a chreu cyfoeth	Bydd arloesedd a chynhyrchedd, drwy ymelwa ar ymchwil, ei ddatblygu a'i fasnacheiddio, yn gweddnewid perfformiad economaidd Cymru.

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**
Helpu i feithrin cymdeithas ddemocrataidd, wâr a chynhwysol sy'n cydnabod hunaniaethau diwylliannol unigryw	Addysg uwch yn helpu i greu "diwylliant beirniadol" yng Nghymru sy'n ddeallusol uchelgeisiol ac yn huawdl, sy'n annog unigolion a chymunedau i gyfrannu'n frwd at fywyd dinesig, diwylliannol a democrataidd y wlad ac yn rhyngwladol.

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**
Chwarae rôl arweiniol wrth sicrhau bod Cymru'n cael ei chydnabod fel cyfrannwr gwerthfawr at y gymuned fyd-eang	Bydd ansawdd addysg uwch yng Nghymru'n golygu bod dysgwyr ac ymchwilwyr rhyngwladol, y gymuned academaidd, a busnes, yn dewis dod i Gymru, gan sicrhau bod Cymru'n aelod cyflawn o'r gymuned ryngwladol.

Atebolrwydd	**Dyheadau ar gyfer Cymru**
Gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau ac arddangos arferion llywodraethu ac arwain o ansawdd uchel.	Caiff y sector addysg uwch ei gydnabod yn rhyngwladol am ansawdd ei drefniadau llywodraethu ac arwain, ac am yr enillion uchel y mae'r sector yn ei gyflawni am yr adnoddau.

ADRAN 3: YR ARGYMHELLION A'R RHESYMEG DROSTYNT

Y newid tymor hir yn natur dysgu a sgiliau

7 Ar wahân i'r heriau economaidd yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd yng Nghymru, ac yng ngweddill y byd, mae'r adolygiad hwn wedi cydnabod y newid sylweddol sy'n codi yn y tymor hir o ran cyfansoddiad corff myfyrwyr AU a dull cyflwyno darpariaeth AU. Bydd cyfuniad o lai o bobl ifanc 18 oed yn y dyfodol, llwyddiant ehangu mynediad a'r angen brys i ddysgu sgiliau newydd a gwella sgiliau'r rheini sydd eisoes yn rhan o'r gweithlu (neu'r rheini sydd o oedran gweithio nad ydynt yn rhan o'r gweithlu) yn arwain at heriau, a chyfleoedd, cymhleth y bydd yn rhaid i AU ymateb iddynt.

8 Mae'r datblygiadau hyn mor arwyddocaol fel na fydd diwygio ac addasu cynllun fan hyn a rhaglen fan draw yn ddigon wrth symud ymlaen. Datgelodd yr adolygiad rai cwestiynau sylfaenol y mae angen inni ofyn i'n hunain yng Nghymru am genhadaeth, diben, swyddogaeth a chyllid addysg uwch yng Nghymru i'r dyfodol. Mae angen system addysg uwch o'r radd flaenaf arnom sy'n cynnal addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf a all gystadlu â gweddill y DU ac yn fyd-eang, ac rydym yn haeddu hynny. Oni eir i'r afael â'r cwestiynau sylfaenol hynny gyda phendantrwydd, bydd hyn yn peryglu llwyddiant a chynaliadwyedd tymor hir addysg uwch yng Nghymru, yn ogystal â dyheadau Cymru i greu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth ac i fod yn wlad ffyniannus a chymdeithasol gynhwysol.

Mae Addysg Uwch wrth galon dyfodol Cymru

9 Mae ein dyheadau ac argymhellion yn seiliedig ar ein hargyhoeddiad bod sector addysg uwch cryf a dyhead cryf am sgiliau lefel uwch yn hanfodol, heb os nac oni bai, i allu gwlad i gystadlu mewn marchnad fyd-eang, ac i'w gallu i ddatblygu ac addasu'n effeithiol i newid sylweddol a chyflym mewn cymdeithas. Mae llywodraethau o bob cwr o'r byd o'r farn bod eu sectorau addysg uwch yn gynhyrchwyr cyfoeth hanfodol drwy greu graddedigion gyda sgiliau lefel uchel, a thrwy sefydlu sylfaen ymchwil a gwyddoniaeth y gellid ymelwa arni er budd yr economi.

10 Cydnabyddir hyn yn **Natganiad Lisbon 2007 yr Undeb Ewropeaidd** (*Universities and the Knowledge Society*): *The central task is to equip Europe's populations– young and old – to play their part within the Knowledge Society, in which economic, social and cultural development depend primarily on the creation and dissemination of knowledge and skills. .. it is these skills which Europe's universities are good at developing, through discipline-based education as well as more professional training, all based in the fundamental research which is the particular role of the university system.*

11 Nid yw'n syndod yn y byd felly bod cystadleuaeth ryngwladol rhwng systemau addysg uwch cenedlaethol a sefydliadau addysg uwch unigol yn fwyfwy chwyrn y dyddiau hyn. Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch yn y gwledydd datblygedig a'r gwledydd datblygol wrth i wledydd anelu at ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd lefel uchel i adeiladu'r sylfeini ar gyfer twf economaidd cynaliadwy. Yn Tsieina, sydd â Chyfradd Cofrestru Gros o 21%, mae 25 miliwn o fyfyrwyr israddedig a dros filiwn o fyfyrwyr ôl-radd yn astudio ym mhrifysgolion y wlad, sydd hefyd yn ehangu, ac mae 1.3 miliwn arall o fyfyrwyr yn astudio dramor, rai ohonynt yng Nghymru.

12 O fewn cenhedlaeth, gwelwyd newid aruthrol yn y DU gan symud o system addysg uwch a luniwyd ar gyfer lleiafrif bach i system addysg ar gyfer trwch y boblogaeth: ym 1960, roedd 200,000 o fyfyrwyr llawn amser wedi cofrestru mewn prifysgolion yn y DU. Erbyn 1995, roedd hyn wedi cynyddu pum gwaith i filiwn. Yn 2006-07, roedd nifer y myfyrwyr a oedd wedi cofrestru'n llawn amser bron yn 1.5 miliwn. Hefyd, mae'r cynnydd anferth mewn addysg uwch ran amser yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yr un mor arwyddocaol. Ym 1995, roedd bron hanner miliwn o fyfyrwyr rhan amser wedi cofrestru yn y DU. Erbyn 2006-07, roedd y nifer hwn bron yn filiwn. Mae twf addysg uwch yng Nghymru wedi adlewyrchu profiad y DU yn fras, ac, fel lleoedd eraill yn y DU, rydym dal yn addasu i'r newid hwnnw.

13 A chofio'r sefyllfa hon, rydym yn cydnabod ac yn croesawu gwahoddiad y Gweinidog inni gymryd agwedd gwraidd a changen i'r adolygiad hwn. Mae hyn, yn ei hun, yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth at ddyfodol addysg uwch ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benderfynol o bennu cyfeiriad tymor hir a chynaliadwy ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.

14 Daw hyn ar adeg y mae nifer o wledydd yn cynnal adolygiadau tebyg o addysg uwch. Yn eu hanfod, mae'r adolygiadau hyn, yn ddieithriad, nid yn unig wedi nodi pwysigrwydd economaidd addysg uwch, ond hefyd ei swyddogaeth o ran datblygu amgylchedd o gyfranogaeth mewn cymdeithas ddinesig, cynhwysiant cymdeithasol, mynegiant diwylliannol a rhyddid democrataidd. Mae'r diwylliant o ryddid academaidd, ymholi gwyddonol, pwyso a mesur a dadlau rhesymegol, yn ogystal â'r awydd ar gyfer dysgu parhaus, yn rhan ganolog o ddiben addysg uwch ac maent yn hanfodol nid yn unig i fod yn sail i gymdeithas gyfiawn a democrataidd, ond hefyd i gynrychioli'r rhagofynion i dwf a datblygiad economaidd. Caiff hyn ei fynegi'n glir yn yr Adolygiad o Addysg Uwch yn Awstralia a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008:

"There is an international consensus that the reach, quality and performance of a nation's higher education system will be key determinants of its economic and social progress. If we are to maintain our high standard of living, underpinned by a robust democracy and a civil and just society, we need an outstanding, internationally competitive higher education system. .. Higher education will

continue to be a cornerstone of our legal, economic, social and cultural institutions and it lies at the heart of (our) research and innovation system".

15 Mae'r hyn sy'n wir yn Awstralia yr un mor berthnasol i Gymru. Daw'r adolygiad hwn felly ar adeg allweddol. Fel mewn gwledydd eraill, mae angen inni ystyried yn syml yr hyn rydym am i addysg uwch ei wneud dros Gymru, a sut y gallwn sicrhau ei bod yn addas i gyflawni'r diben hwnnw. Drwy gymryd y cam hwn nawr, mae gan Gymru'r potensial i fod ar flaen y gad o ran gweledigaeth a chyfeiriad newydd i addysg uwch. Credwn fod ein hargymhellion yn deilwng o'r dyhead hwnnw, a gallant osod llwybr ar gyfer dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.

16 Fodd bynnag, mae yna arwyddocâd arbennig arall i'r adolygiad hwn yng Nghymru. Yn ei hanfod, hwn yw darn olaf jig-sô *Y Wlad sy'n Dysgu*. Mae'n ategu'r llwybrau a grëwyd drwy'r adolygiadau a'r polisïau blaenorol yn ymwneud ag ysgolion, colegau, dysgu yn y gwaith a dysgu yn y gymuned. Roeddem yn hynod ymwybodol o'r cyfle a oedd gennym i ymestyn a lledaenu'r llwybrau hynny a gosod addysg uwch fel y pwynt ôl-19 i ymgyrraedd ato, gydag uchelgais i gefnogi dysgwyr o bob oed, cyflogwyr a gweithluoedd drwy ddatblygu sgiliau uwch.

Yr Heriau a'n hargymhellion ar gyfer mynd i'r afael â nhw

17 Ar wahân i'r datblygiadau rhyngwladol a demograffig sylweddol sy'n effeithio ar ein hanghenion i'r dyfodol o ran addysg uwch, gwnaethom gydnabod nifer o faterion mwy brys y mae angen inni roi sylw iddynt yng Nghymru. Ceir llawer o enghreifftiau o ragoriaeth ryngwladol yng Nghymru, ond ar y cyfan, nid yw ein sector AU yn cael dylanwad mawr ar y darlun byd-eang - er enghraifft, dim ond un sefydliad o Gymru sydd yng Nghynghrair y Times o'r 200 Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) Gorau o'i gymharu â 4 yn yr Alban a 24 yn Lloegr.

18 Credwn fod gweithrediad, y gefnogaeth a'r canfyddiad presennol o addysg uwch yng Nghymru'n peryglu llwyddiant a phresenoldeb Cymru yn y dyfodol fel economi a chymdeithas. Fel grŵp, gwnaethom ystyried ystod o wybodaeth a safbwyntiau (mae Atodiad 2 yn cynnwys crynodeb o rai o'r ffigurau allweddol). Yn ystod yr adolygiad, canfuom fod nifer o faterion allweddol yn codi'u pen dro ar ôl tro:

19 <u>Deall natur darpariaeth sgiliau lefel uwch:</u> Cawsom ein synnu gan yr ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r amrediad eang o weithgarwch sy'n digwydd dan deitl hollgynhwysol "addysg uwch", am yr effaith a gaiff ar Gymru, gwerth dysgu a sgiliau lefel uwch, ac am sgiliau graddedigion ac ôl-raddedigion. Ceir ymdeimlad o hyd bod addysg uwch yn bennaf oll ar gyfer y rheini sy'n gadael ysgol i ddilyn rhaglenni gradd israddedig llawn amser er mwyn astudio pynciau "academaidd". Yn ein barn ni, mae'r ffaith bod y safbwynt hwn yn dal i fodoli yn tystio pa mor gyflym y mae addysg uwch wedi newid mewn cenhedlaeth. Er enghraifft, yn 2007/08, roedd 1 myfyriwr llawn amser ym mhob 6 dros 25 oed, ac roedd 41% o'r

holl fyfyrwyr a gofrestrodd mewn SAU yng Nghymru (yn cynnwys y Brifysgol Agored) yn astudio'n rhan amser. Yn fwy na hynny, mae llawer o ddarpariaeth AU yn alwedigaethol, er mwyn addysgu a hyfforddi gweithwyr proffesiynol megis nyrsys, meddygon, athrawon, peirianwyr, gweithwyr cymdeithasol, technegwyr a llawer mwy. Yr hyn sydd hyd yn oed yn fwy trawiadol yw effaith addysg uwch ar economi Cymru mewn llawer o ffyrdd gwahanol. At ei gilydd, mae trosiant y sector AU yng Nghymru dros £1bn y flwyddyn. Mae myfyrwyr sy'n dod i Gymru o weddill y DU ac o dramor yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi tra byddant yma, a hyd yn oed fwy os ydynt yn aros.

Rydym yn argymell cymryd camau i gyfleu swyddogaeth addysg uwch yn gliriach ac yn fwy priodol i amrediad o gynulleidfaoedd yng Nghymru: yn unigolion, yn fusnesau, ac yn gymunedau.

20 Dyhead i ddysgu: Neges allweddol polisi addysg yng Nghymru ers sawl blwyddyn yw bod dysgu yn rhywbeth gydol oes, a gall pob un, o bob oed ac ar bob lefel, gael budd o brofiad dysgu o ansawdd. Mae addysg uwch yn cynrychioli'r lefel uchaf o gyflawniad addysgol, ond mae ymchwil wedi canfod bod cyflawni ar unrhyw lefel yn esgor ar fanteision, yn cynnwys llwyddiant mewn gwaith a chyflogaeth, hunan hyder, ysgogiad, iechyd a lles. Mae llwyddiant Cymru i'r dyfodol yn dibynnu ar greu dyhead cyffredin ymhlith pobl o bob oed a sefyllfa, yn cynnwys dyhead am addysg uwch. Rydym yn nodi'r cynnydd yng Nghymru o ran gwella cyfranogaeth a chyflawniad. Fodd bynnag, rydym wedi nodi amrediad eang o brosiectau a chynlluniau i annog cyfranogaeth mewn gwahanol fathau a lefelau o ddysgu, ac mewn meysydd pwnc gwahanol. Rydym yn poeni bod hyn yn ddryslyd a bod negeseuon allweddol yn cael eu colli.

Rydym yn argymell ailystyried yr amrediad o raglenni ar gyfer pob oedran a lefel sy'n hyrwyddo dysgu a sgiliau, gyda'r bwriad o'u cyfuno dan amrediad llai o themâu allweddol

21 Mynediad at addysg uwch – Mae Paragraff 7 yn Atodiad 2 yn cyflwyno ffigurau ar berfformiad Cymru o ran ehangu mynediad at addysg uwch. Gwnaethom nodi amrediad eang o raglenni i gyllido a chefnogi mynediad ehangach a chroesawn agwedd "pob oed" y Llywodraeth at y maes polisi hwn, ond credwn fod rhywfaint o fomentwm wedi'i golli yn y blynyddoedd diwethaf ac mae yna agweddau o'r agenda allweddol hwn y mae angen eu herio o hyd. Er gwaethaf y cynnydd mewn cyfranogaeth yn gyffredinol yng Nghymru, roeddem yn pryderu wrth weld bod graddfa'r her mewn rhai rhannau o Gymru'n dal i fod yn sylweddol. Fel mae'r map isod yn dangos, pery rhai ardaloedd sy'n profi cyfraddau lawer is o gyfranogaeth a chyflawniad AU, lefelau sgiliau sy'n llawer is na'r cyfartaledd, yn ogystal â llai o gyfleoedd lleol i gael mynediad at addysg uwch. Ceir perygl y bydd cylch dieflig o amddifadedd dwys, hyder isel gan unigolion a'r gymuned, a dirywiad economaidd yn ymwreiddio. Bydd yn anos mynd i'r afael â hyn po hiraf y bydd yn para. Mae'r gyfradd gyflawni isaf ym Mlaenau Gwent lle mae 17% o'r boblogaeth yn meddu ar gymhwyster lefel 4 neu uwch dan y Fframwaith

Cymwysterau Cenedlaethol, sy'n seiliedig ar Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Dim ond ychydig o filltiroedd sydd rhwng Blaenau Gwent a sir Fynwy, ond yno mae'r ffigur yn 39%, sef yr uchaf yng Nghymru[3].



22 Law yn llaw â hyn, mae ein llwyddiant cyffredinol wrth ehangu mynediad yn cyd-fynd â chyfraddau gadael uchel o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Felly, er efallai ein bod wedi llwyddo i agor y drws i addysg uwch i lawer fwy o bobl, mae gennym fwy i'w wneud i'w helpu i gyflawni eu dyheadau. Credwn y gallai'r Agenda Gweddnewid mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, a'r fframwaith 14-19, wneud cyfraniad allweddol at wella mynediad i bobl ifanc drwy lwybrau datblygu clir.

[3] Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, 2007.

23 Ar ôl cwblhau Cam 1 yr adolygiad, gofynnwyd i'r grŵp ystyried bwrsarïau yng ngham 2. Mae'n arbennig o arwyddocaol i ehangu mynediad a chefnogi cadw myfyrwyr. Mae graddfa'r adnoddau a neilltuwyd ar gyfer y cynllun bwrsari cenedlaethol ei hun yn sylweddol: mae sefydliadau wedi neilltuo cyfanswm o £42 miliwn am y pum mlynedd tan 2012. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth a oedd yn pwyntio at amrediad dryslyd o feini prawf a lefelau dyfarniad. Mae hon yn sefyllfa sydd yn rhannol anochel a chofio'r cwmpas sydd gan SAU i lunio a dosbarthu bwrsarïau mewn fframwaith eang. Er bod bwrsarïau'n cael eu gweld fel offeryn ychwanegol i gefnogi'r rheini sydd fwyaf bregus yn ariannol, ceir hefyd arfer gwahanol ymysg SAU o ran defnyddio bwrsarïau ac ysgoloriaethau fel cymhelliant i helpu recriwtio, ac fel dull o gystadlu yn erbyn sefydliadau eraill yn y DU.

24 Credwn fod angen cael rhaniad cliriach rhwng ysgoloriaethau a bwrsarïau a meini prawf manylach ar gyfer bwrsarïau. Er enghraifft, mae croeso i SAU ddefnyddio ysgoloriaethau i annog diddordeb gan fathau penodol o ymgeiswyr, neu i roi hwb i'r broses recriwtio i feysydd pwnc arbennig. Mae'n amlwg bod y sector addysg uwch dal yn addasu i system bresennol y cynllun bwrsari cenedlaethol, a gyflwynwyd yn 2007. Fodd bynnag, ceir gwir gyfle i ddefnyddio bwrsarïau mewn ffyrdd sy'n helpu i roi sylw i'r materion a wynebom yng Ngham 1 a'r materion yr ydym wedi'u hwynebu yng Ngham 2 yr adolygiad hwn, yn cynnwys:

- yr angen i dargedu'r rheini sydd fwyaf bregus ac sydd fwyaf mewn angen yn ariannol (sydd naill ai'n astudio'n llawn amser neu'n rhan amser)
- eu bod yn hawdd i'w deall ac yn syml i'w gweinyddu
- eu bod yn helpu i gyflawni uchelgeisiau cenedlaethol Cymru.

25 Ceir cyfle, yng nghyd-destun y camau o ran ehangu mynediad, ac o gofio'r diwygiadau sydd yn yr arfaeth i gyllid myfyrwyr yn dilyn Cam 1, i symleiddio a gwneud y system bwrsari presennol yn fwy tryloyw a theg gan esgor ar gyfleoedd i dargedu'n fwy strategol yn unol ag amcanion cenedlaethol. Gall hyn fynd law yn llaw ag anogaeth bellach i SAU i barhau i ddatblygu ac addasu cynlluniau ysgoloriaeth sy'n gwobrwyo perfformiad unigol ac yn rhoi elfen gystadleuol i'r broses recriwtio yng nghyd-destun y DU.

26 Elfen unigryw o fynediad at addysg uwch yng Nghymru yw'r ffaith y defnyddir ac y darperir ar gyfer yr iaith Gymraeg. Nododd y grŵp fod symudiadau eisoes ar y gweill i gynyddu'n sylweddol y defnydd o'r Gymraeg mewn addysg uwch a gallu'r sector i feithrin a datblygu ei chryfder a'i bodolaeth. Y datblygiad allweddol yw'r Coleg Ffederal, ac mae argymhellion yn cael eu paratoi yn hyn o beth ochr yn ochr â'r adolygiad hwn. Rydym yn awyddus y caiff hyn ei ddatblygu law yn llaw â'n hargymhellion ni.

Argymhellwn y canlynol:

Strategaeth Fynediad Genedlaethol i bob oed, ar ei newydd wedd, er mwyn targedu meysydd o gyfranogaeth isel ac i lunio trefniadau cefnogi

cyfuno'r llinynnau amrywiol o gefnogaeth a chyllid ar gyfer ehangu mynediad i nifer lai o flaenoriaethau a fydd yn cael mwy o effaith

rhaglen i geisio sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn aros ar gyrsiau ac yn eu cwblhau drwy ddarparu cefnogaeth bersonol a chefnogaeth i astudio, yn cynnwys llythrennedd ariannol a chyngor gyrfa

fframwaith clir a thryloyw ar gyfer bwrsarïau i fyfyrwyr ar sail prawf modd, yn fyfyrwyr llawn amser a rhan amser, sy'n adlewyrchu anghenion y dysgwr a dyheadau cenedlaethol yn gliriach. Ategir hyn drwy ddefnyddio ysgoloriaethau i roi sylw i anghenion recriwtio cystadleuol

bydd AU yn dod yn rhan hanfodol a chanolog o'r Polisi Gweddnewid i sicrhau mwy o gyfranogaeth, mwy o gydweithio a darpariaeth ddysgu wedi'i chynllunio'n fwy cydlynol

ystyrir datblygiad y Coleg Ffederal yng nghyd-destun strategaeth fynediad AU genedlaethol ar ei newydd wedd, a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn ar y fframwaith gyflenwi a'r compact.

27 Mae cyfleoedd rhan amser effeithiol a darpariaeth hyblyg yn elfennau hanfodol o ehangu mynediad, ond mae ganddynt ystyr ehangach mewn perthynas ag addysg uwch. A chofio'r angen i feithrin sgiliau lefel uwch yn y sectorau â blaenoriaeth, anghenion sgiliau'r rheini nad ydynt ar hyn o bryd yn rhan o'r gweithlu, a'r angen i ddarparu ar gyfer cymuned ddysgu sy'n mynd yn fwy amrywiol, mae bod yn hyblyg o ran darpariaeth yn ofyniad craidd. Mae addysg uwch ran amser, a'r system gyllido'n seiliedig ar gredydau sy'n sail iddo, yn cynnig cyfle sylweddol i Gymru godi lefelau cyfranogaeth a chyflawniad addysg uwch o fewn gweithluoedd a chymunedau. Nodwn fod cyfranogaeth ran amser wedi cynyddu'n gynt na chyfranogaeth amser llawn dros y ddegawd ddiwethaf, ond yn ddiweddar iawn, mae cyfranogaeth ran amser yn gyffredinol wedi dechrau disgyn. Mae'n rhy gynnar i wybod beth yw'r union reswm dros y lleihad hwn, ond rhaid cadw llygad barcud arno er mwyn canfod y rhesymau a mynd i'r afael â nhw.

28 Rydym wedi nodi'r gwahaniaeth yn y trefniadau ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan amser a myfyrwyr llawn amser, yn enwedig gan fod myfyrwyr rhan amser – yn wahanol i'r rheini sy'n astudio'n llawn amser – yn gorfod talu eu ffioedd ymlaen llaw. Er bod y rhesymau dros wahaniaethau o'r fath yn gymhleth ac yn amrywiol, mae'r cyferbyniad rhyngddynt yn anghyfforddus, yn enwedig gan fod patrymau astudio myfyrwyr llawn amser a rhan amser mewn gwirionedd yn mynd yn fwy annelwig oherwydd yr hyblygrwydd posibl sydd ar gael drwy'r system gredydau, ond gan gydnabod hefyd fod hyn yn amrywio o un sefydliad i'r llall yn dibynnu ar genhadaeth, cyfansoddiad y corff myfyrwyr a'r sylfaen boblogaeth leol. Rhaid rhoi sylw i densiynau a gwendidau, ac mae

angen ymchwilio'n fwy manwl i feysydd lle mae ein dealltwriaeth ar hyn o bryd yn wan, yn cynnwys:

- y galw cudd am astudio'n rhan amser (lle byddai mwy o bobl efallai'n dilyn cyrsiau pe baent ar gael);
- y graddau y mae pobl yn dewis peidio â chymryd rhan mewn addysg uwch oherwydd y gost;
- cefnogaeth i astudio a chefnogaeth fugeiliol ar gyfer myfyrwyr rhan amser er mwyn sicrhau eu bod yn aros ar y cwrs.

29 Un mater yw i ba raddau y mae'r trefniadau cyllido a'r cyllid presennol yn gallu cynnal y ddarpariaeth hon yn y tymor hwy, a chofio'r newidiadau i'r trefniadau ar gyfer darpariaeth llawn amser. Mae'r farchnad yn chwarae rôl arwyddocaol o ran pennu lefelau ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan amser. Gall hyn fod o fudd i fyfyrwyr o ran cadw ffioedd yn weddol isel, ond pan fo hyn yn digwydd, mae llai o gymhelliant i sefydliadau fuddsoddi'n helaeth mewn dysgu rhan amser, ac ar gyfer y sefydliadau hynny sydd wedi cynnal cyfran fawr o ddarpariaeth ran amser, mae perygl na fyddant yn gallu cael incwm o ffioedd y myfyrwyr.

30 Arweiniodd adolygiad Graham at newidiadau yn y drefn gyllido a wnaeth liniaru rhai o'r materion mwyaf heriol yn ymwneud â phrofiad y dysgwr rhan amser. Fodd bynnag, un broblem a erys yw p'un ai a yw'r agwedd a lefel y cymorth yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r heriau yn y tymor hir, gan greu amgylchedd lle mae darpariaeth ran amser yn gallu tyfu'n organig ac ymateb i anghenion sgiliau yng Nghymru.

31 Derbynnir bod SAU yn y dyddiau cynnar o hyd o ran eu profiad ac o ran gwneud y gorau o'r newidiadau ar ôl adolygiad Graham. Dylid cynnal y cyllid hwn a pharhau i'w fonitro'n fanwl, yn ogystal â'i effaith ar ddarpariaeth AU ran amser yng Nghymru.

Argymhellwn y canlynol:

caiff dysgu rhan amser ei gefnogi a'i fonitro mewn ffyrdd sy'n cydnabod ei arwyddocâd presennol ac i'r dyfodol o ran cyflawni dyheadau, cynhwysiant a datblygu'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r trefniadau cefnogi presennol a gyflwynwyd ar ôl adolygiad Graham.

32 Ymchwil – Mae Ymarferiad Asesu Ymchwil y DU 2008 wedi dangos bod sawl enghraifft o ragoriaeth yng Nghymru sydd ar flaen y gad yn rhyngwladol, a rhai meysydd cryf eithriadol, ond yn gyffredinol mae sylfaen ymchwil Cymru, yn enwedig ei sylfaen wyddoniaeth, ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill y DU o ran ansawdd a maint. Er bod canlyniadau'r Ymarferiad Asesu Ymchwil yn dangos bod 14% o'r ymchwil a wneir yng Nghymru ymysg y gorau yn y byd, mae'r ffigur yn 18% yn Lloegr ac yn 15% yn yr Alban. Yn yr un modd, er bod swm y

cyllid ymchwil yr oedd Sefydliadau Uwch yng Nghymru wedi'i ennill gan Gynghorau Ymchwil y DU wedi cynyddu o £23m yn 2000/01 i £35.6m yn 2006/07, mae cyfran yr arian a enillwyd gan y Sector yng Nghymru o'r holl arian sydd ar gael wedi aros yn oddeutu 3%, er gwaethaf y targed i ennill cyfran uwch.

33 Yn ôl pob tebyg, dau o'r ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at y methiant i ennill canran uwch o arian y Cyngor Ymchwil yw maint annigonol lawer o'r unedau ymchwil a'r cyllid annigonol ar gyfer ymchwil. Rydym yn cydnabod bod mesurau sylweddol wedi'u cymryd dros y blynyddoedd diwethaf i gynyddu maint a chwmpas ac i gael màs critigol, drwy greu unedau ymchwil ar y cyd, wedi'u cyllido'n aml drwy Gronfa Ad-drefnu a Chydweithredu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Yn yr un modd, rydym yn croesawu'r newidiadau a wnaed gan CCAUC i'r fethodoleg cyllido ymchwil craidd (yn ymwneud ag ansawdd) ac o ran trosglwyddo'r cyllid ychwanegol i gefnogi gweithgarwch ymchwil yn 2009/10. Fodd bynnag, mae'r ffigurau uchod yn awgrymu nad yw Cymru'n cau'r bwlch rhyngom a'n cystadleuwyr o ran perfformiad ymchwil a bod angen gwneud mwy i gael y màs critigol ac i godi lefelau buddsoddi mewn ymchwil.

34 Credwn y byddai perfformio'n well wrth ddenu ymchwilwyr ôl-radd i Gymru yn esgor ar fanteision sylweddol i Gymru, yn cynnwys meithrin cymuned academaidd y dyfodol a chefnogi arloesedd. Mae Cymru'n dyfarnu 4% o gymwysterau ymchwil ôl-radd y DU, o'i gymharu â 5.5% o gymwysterau gradd gyntaf. Mae tystiolaeth yn dangos bod y rheini a addysgwyd i lefel doethuriaeth yn fwy tebygol o feddu ar y sgiliau a'r galluoedd a fydd yn eu galluogi i adnabod a manteisio ar gyfleoedd busnes yn llwyddiannus a dod yn entrepreneuriaid.

Argymhellwn y canlynol:

cyflymu'r gwaith sydd ei angen o ran cyfuno a meithrin gallu er mwyn gwella Perfformiad Ymchwil Cymru

rhaglen i wneud Cymru'n lleoliad o ddewis ymhlith ymchwilwyr ôl-radd ac sy'n cynyddu maint y gymuned ôl-radd yn sylweddol

buddsoddi mewn ymchwil sy'n adeiladu ar gryfderau presennol Cymru neu sy'n rhoi sylw i'r blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt, yn enwedig y sylfaen wyddoniaeth

35 Ymelwa ar Wybodaeth – Mae'n ymddangos bod Cymru'n perfformio'n gredadwy o'i gymharu â gweddill y DU o ran mesurau ar gyfer ymelwa ar ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth i fusnesau (gweler Atodiad 2 paragraff 18). Mae Cymru'n raddol fach wedi cynyddu ei chyfran o'r farchnad o incwm nad yw'n deillio o'r Cyngor Ymchwil o 3.7% o gyfanswm y DU yn 2001/02 i 4.3% yn 2006/7. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, nid yw'r sylfaen ymchwil yng Nghymru sy'n sail i'r gweithgarwch hwn wedi'i datblygu'n ddigonol ac, ynghyd â hyn, mae'r her economaidd

y mae Cymru'n ei hwynebu o'i gymharu â rhannau eraill y DU yn sylweddol (mae'r Sgorfwrdd ar gyfer Arloesedd Ewropeaidd, a ddatblygwyd dan Strategaeth Lisbon, yn awgrymu bod perfformiad Cymru o ran arloesedd yn 10fed allan o 12 rhanbarth y DU).

36 Yn amlwg, ceir cryn le i ymestyn swyddogaeth AU yng Nghymru o ran datblygu economaidd a bydd rheidrwydd i wneud hynny er mwyn cyrraedd nodau datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad. Bydd integreiddio anghenion busnes a chyflogwyr o fewn busnes craidd SAU yn allweddol i'r swyddogaeth hon ar gyfer AU ac roedd yn fater a godwyd gan gynrychiolwyr busnes yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydymwybyddiaeth, gwell cyfathrebu am anghenion busnes a'r hyn y mae AU yn ei gynnig, a gallu SAU i ymgysylltu â busnesau mewn modd sy'n esgor ar fanteision i'r naill a'r llall.

Argymhellwn y canlynol:

cysylltiadau cryfach rhwng busnes ac AU a fydd yn cyfrannu at y galw ac yn cryfhau cyflenwad yr ymchwil a datblygu cymhwysol, yn ogystal â hyfforddiant

Sefydliadau AU yn cryfhau eu swyddogaeth fel arweinwyr adfywio economaidd rhanbarthol

37 Anghenion Sgiliau Uwch yng Nghymru – Fel y tynnwyd sylw ato dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r DU ar ei hôl hi o ran sgiliau o'i gymharu â rhai o brif wledydd Ymholiadau Taliadau Cyllid y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a rhagwelir y bydd y bwlch hwn yn cynyddu oni bai y caiff camau sylweddol eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf. Yn 2007, roedd 27% o'r boblogaeth oed gweithio yng Nghymru wedi cymhwyso i lefel sgiliau 4 neu uwch Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Mae hwn yn gynnydd o 1 pwynt canran dros y 2 flynedd er 2005[4]. Mae'r lefel hon yn unol â'r targed carreg filltir a osodwyd ar gyfer Cymru yn y strategaeth addysg "*Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*". Yn yr un strategaeth, roedd targed y byddai canran yr oedolion o oed gweithio gyda chymhwyster sy'n cyfateb i lefel 4 neu uwch yn cyrraedd 30% erbyn 2010. Petai hynny'n cael ei wireddu, byddai hynny'n golygu bod sgiliau lefel uwch yng Nghymru'n cyrraedd lefel a gyrhaeddwyd drwy'r DU yn ei chyfanrwydd nôl yn 2007.

38 Felly, er bod yna welliant wedi digwydd dros amser, mae gwledydd eraill y DU hefyd wedi dangos bod lefelau sgiliau wedi gwella, ac mae Cymru'n dal ar ei hôl hi o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y bwlch sgiliau rhwng Cymru a gwledydd eraill yn culhau, ond nid yw hwn yn ddigon sylweddol i awgrymu y byddwn yn cyrraedd sefyllfa gyfartal am sawl blwyddyn. Mae cyfran yr oedolion

[4] Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, 2007

sydd wedi cymhwyso i o leiaf lefel 4 yng Nghymru rywfaint yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon, ond mae'n is na'r Alban, Lloegr a'r DU yn ei chyfanrwydd.

39 Gwnaethom nodi llawer o fentrau sy'n rhoi sylw i lefelau sgiliau, ond rhaid i Gymru fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau lefel uwch yn strategol ac yn llawn dychymyg, gan dalu sylw i anghenion penodol y wlad, yn cynnwys y rheini sydd eisoes mewn oed gweithio, os ydyw am ddal i fyny a rhagori ar weddill y DU a gwledydd eraill. Mae pwysigrwydd y pwynt hwn wedi'i bwysleisio ar lefel y DU (gan Gomisiwn y DU ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau) ac yng Nghymru (gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru).

40 Gwnaethom nodi rhywfaint o ddryswch ar lefel y DU yn yr union fath a lefel y sgiliau rydym yn chwilio amdanynt. Gwnaethom nodi targed adolygiad Leitch sef 40% wedi cymhwyso i o leiaf NVQ lefel 4 neu gymhwyster cyfatebol. Ein pryder yw y byddai cynnydd cyffredinol mewn cyfraddau cymwysterau, drwy ddefnyddio'r mesur hwn sy'n cynnwys pawb, yn gallu cuddio cynnydd annigonol mewn rhai lefelau cymhwyster mwy penodol (ee Diploma Cenedlaethol Uwch a Gradd Sylfaen ar lefelau 4 a 5, gradd anrhydedd ar lefel 6, Meistr ar lefel 7 neu PhD ar lefel 8). Yn bwysicach, efallai y gallai guddio problemau mewn meysydd pwnc allweddol penodol: er enghraifft, y gwyddorau, mathemateg, a pheirianneg. Credwn y dylai monitro i'r dyfodol alluogi mynegiant cliriach o sgiliau fesul lefel, er mwyn arwain polisi i'r dyfodol yn fwy effeithiol.

41 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd i godi ein lefelau sgiliau, a hynny'n sydyn. O ran y dull presennol o fesur, ar hyn o bryd 30% yn unig o oedolion sydd wedi cymhwyso i lefel 4 yn y DU, o'i gymharu â dros 40% yn yr UDA a Chanada. Fodd bynnag, mae'r broblem yn fwy trawiadol yng Nghymru gyda 27% wedi cymhwyso i lefel 4 neu uwch Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Pa ffordd bynnag y caiff yr ystadegau eu llunio, mae Cymru'n disgyn i hanner gwaelod y tablau cymharu. Mae angen i gyfran y boblogaeth â sgiliau lefel uwch yng Nghymru gynyddu'n uwch ac yn gynt nag yng ngweddill y DU os ydym am oresgyn yr anfantais hon.

42 Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u cyflawni o ran lefelau sgiliau uwch yng Nghymru er 2001 (gyda'r lefelau yng Nghymru bellach yn cymharu'n ffafriol â llawer o ranbarthau Lloegr, yn cynnwys gogledd orllewin Lloegr, gogledd ddwyrain Lloegr, a dwyrain a gorllewin canolbarth Lloegr), roeddem yn pryderu wrth ddarganfod bod y cynnydd wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf, ar yr union adeg y mae sgiliau lefel uchel yn cael mwy o sylw yn y DU ac yn rhyngwladol nag erioed o'r blaen.

Argymhellwn y canlynol:

camau i ddatblygu gwell cydymwybyddiaeth a chyfathrebu rhwng busnes ac addysg uwch, yn ogystal â chyflenwi'r rhaglen yn effeithiol ac yn amserol

ffocws strategol agosach ar lefelau gwahanol o sgiliau lefel uchel (lefelau 3-5/6/7-8 Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru) sy'n cydnabod manteision unigryw lefelau sgiliau gwahanol a'r angen amdanynt, yn cynnwys rôl y Graddau Sylfaen, a chymwysterau gradd ac ôl-radd.

cynnal ymchwil i farchnadoedd cyflogaeth y dyfodol i hysbysu blaenoriaethau o ran sgiliau a pholisi (yn cynnwys mynegi hynny wrth y Cynghorau Sgiliau Sector).

partneriaethau rhwng AU, Addysg Bellach (AB) a chyflogwyr i lunio a chyflwyno rhaglenni sydd wedi'u cysylltu â meysydd pwnc â blaenoriaeth y cytunwyd arnynt, yn cynnwys meysydd pwnc gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).

datblygu staff yn sylweddol er mwyn sicrhau addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel wedi'i alinio i anghenion pobl mewn cyflogaeth a'r rheini sydd eisiau bod yn rhan o'r farchnad lafur, yn cynnwys darparu yn y gweithle

43 Cyflogadwyedd – codwyd y mater ynghylch bod yn gyflogadwy drwy gydol yr adolygiad. Mae record cyflogaeth graddedigion Cymru'n dda ond mae'n her o hyd i sicrhau bod y rheini sy'n gadael ar ôl graddio yn barod ar gyfer byd gwaith. Cafwyd negeseuon clir gan gyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr. Yn dechnegol, mae myfyrwyr sydd wedi cymhwyso yn hyddysg yn y sgiliau penodol y maent wedi'u dysgu, ond y rhai sydd fwyaf cyflogadwy yw'r rheini sy'n rhagori mewn sgiliau generig, sef:

- Y rheini sy'n meddwl yn hyderus - sy'n gallu deall cysyniadau'n gyflym, yn meddwl y tu allan i'r blwch ac yn herio rhagdybiaethau
- Y rheini sy'n meddwl yn greadigol ac yn gwneud pethau - sy'n awyddus i ddysgu a chael eu herio ac sy'n rhoi prosesau creadigol ar waith ac yn eu rheoli
- Y rheini sy'n cyfathrebu - sy'n gallu gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bobl wahanol gan ffurfio mathau gwahanol o berthynas
- Arweinwyr - sy'n gallu rhoi hyder i eraill a chael y gorau ohonynt
- Y rheini sy'n asiantau dros newid - sy'n golygu eu bod yn gallu addasu i newid eu hunain yn ogystal â helpu eraill i addasu i newid

44 Bydd AU yng Nghymru'n paratoi graddedigion ar gyfer dyfodol anhysbys gan fod y sefyllfa gyflogaeth yn newid mor gyflym. Fel rhan o hyn, bydd yn hybu Dysgu sy'n seiliedig ar Ddatrys Problemau ac Ymchwil Weithredol, yn cynnwys defnyddio asesiad hyblyg a llawn dychymyg sy'n addas i'r deilliannau dysgu a goleddir gan randdeiliaid.

45 Clywsom gan fyfyrwyr fel rhan o'r adolygiad, a chafwyd neges glir am eu hymwybyddiaeth o orfod bod yn 'werthfawr i'r farchnad' mewn torf o raddedigion sy'n chwilio am gyflogaeth. Cafwyd canmoliaeth ganddynt am y cyfleoedd a gânt mewn addysg uwch i ddilyn diddordebau a gweithgareddau allgyrsiol, sy'n helpu i feithrin a datblygu eu cyflogadwyedd. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am y pwysau a deimlant i feddwl am gyfleoedd cyflogaeth ar adeg y maent dal yn darganfod eu hunain, eu cryfderau a'u hoffterau. Mae angen inni edrych ar sut i gael cydbwysedd rhwng helpu cyfranogwyr mewn addysg uwch i gael bodlonrwydd personol, academaidd a chymdeithasol, a sicrhau ar yr un pryd eu bod yn barod i wynebu her gweithlu yn yr 21ain ganrif. Mae hyn yn mynd at wraidd y cwricwlwm, at ei gynnwys, ac at natur ac ansawdd y cyflwyno a phrofiad y myfyriwr.

Argymhellwn y canlynol:

camau i wella cyflogadwyedd graddedigion, drwy arddangos sgiliau generig hanfodol yn amlycach

annog prifysgolion i ddiffinio nodweddion graddedigion mewn partneriaeth â'r Academi Addysg Uwch a Chymdeithas Gwasanaethau Cynghori Gyrfa i Raddedigion

hyrwyddo lleoliadau gwaith yn fwy brwd drwy gydol rhaglenni israddedigion

adeiladu ar lwyddiant GO Wales

46 Profiad Myfyrwyr- mae myfyrwyr wrth wraidd addysg uwch ac mae'n rhaid i'w profiad nhw fod yn ystyriaeth ganolog. Mae'n ymddangos fel petai Cymru'n cyflawni'n well na safonau'r DU ar fodlonrwydd myfyrwyr yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Yn arolwg 2008, gwnaeth 83% o israddedigion ar eu blwyddyn olaf fynegi bodlonrwydd cyffredinol â'u cyrsiau, o'i gymharu â 82% yn Lloegr, ac roedd gan rai sefydliadau yng Nghymru gyfraddau bodlonrwydd rhyfeddol o uchel. Fodd bynnag, o'n trafodaethau gyda myfyrwyr, mae'n glir bod nifer o feysydd lle mae angen gwella profiad myfyrwyr drwyddo draw. Gwnaethom nodi:

- pwysigrwydd profiadau myfyrwyr y tu allan i'w hastudiaethau academaidd yn y brifysgol, a'r ymdeimlad o rwystredigaeth ymysg rhai myfyrwyr bod sefydliadau'n canolbwyntio ormod ar eu paratoi ar gyfer swyddi, heb roi digon o sylw i'r profiad dysgu ehangach a'r profiad ehangach i'r myfyriwr;
- y syniad y gall sefydliadau bach roi profiad mwy personol i fyfyrwyr;
- effaith costau "cudd" cyrsiau; teimlwyd nad oedd myfyrwyr yn cael digon o wybodaeth am y costau y byddai'n rhaid iddynt dalu ar ben ffioedd safonol y cyrsiau ac, ar y cyfan, ychydig iawn o help a roddir iddynt i dalu costau o'r fath;
- angen cael seilwaith a chyfleusterau priodol ac sy'n addas at eu diben, gan wrthod cyfleusterau newydd sy'n ddeniadol ond nad

ydynt yn gweithio'n dda neu nad ydynt wedi cael eu dylunio ar gyfer myfyrwyr;

- angen gwneud mwy i leihau cyfraddau gadael a hybu cadw myfyrwyr;
- anodd i fyfyrwyr gael dweud eu dweud (roedd myfyrwyr yn teimlo nad oedd neb yn gwrando ar eu barn, hyd yn oed pan gyflwynwyd y farn honno drwy fecanweithiau adborth swyddogol);
- anghydraddoldebau rhwng profiadau myfyrwyr llawn amser a myfyrwyr rhan amser.

47 Mae ansawdd y profiad yn gysylltiedig â llawer o bethau, o ran buddsoddi yn y seilwaith er mwyn bodloni disgwyliadau cynyddol myfyrwyr, i bryder penodol gyda'r gefnogaeth o ran dysgu ac addysgu. Rhaid i hyn ganolbwyntio ar brofiad y myfyrwyr drwy godi safon a sicrhau ansawdd, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n golygu bod rhanddeiliaid wrth eu bod yn hytrach nag wedi'u bodloni'n unig. Rhaid sicrhau a gwella Dysgu ac Addysgu o'r ansawdd uchaf, gan gyrraedd safonau Sicrhau Ansawdd manwl. Mae disgwyliadau myfyrwyr (a staff) ynghylch yr amgylchedd gorau a'r dull addysgu, dysgu ac astudio yn cynyddu drwy'r amser, sy'n codi cwestiynau difrifol ynghylch a yw lefelau presennol y buddsoddi mewn seilwaith, cyfleusterau a sgiliau darparwyr yn ddigonol, a chofion bod rhaid i sefydliadau AU yng Nghymru weithio i safon ryngwladol a bod rhaid iddynt gystadlu'n fyd-eang. Mae gan fyfyrwyr gyfraniad gweithredol i'w wneud i gynnal a chadw amgylchedd dysgu a datblygu o ansawdd uchel.

Argymhellwn y canlynol:

annog creu cymuned datblygu addysgol genedlaethol, gan ddefnyddio'r arbenigedd ym maes Addysg Gychwynnol i Athrawon ac eDdysgu yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth, yr Academi Addysg Uwch, ac arfer da sy'n deillio o brifysgolion, ysgolion a cholegau

camau i adnabod rôl myfyrwyr yn fwy manwl, fel cyfranogwyr brwd a dylanwadol mewn addysg uwch, yn ogystal â datblygu blaenoriaethau polisi addysg uwch, er mwyn cyfrannau at wella'r holl amgylchedd dysgu

48 Effaith diwylliannol a dinesig AU – Mae prifysgolion yn rhan allweddol o'r tirlun diwylliannol ac maent yn un o brif ddarparwyr gwasanaethau ac arweiniad diwylliannol. Ond roedd yn glir i'r grŵp, dros y blynyddoedd diwethaf, bod swyddogaeth AU yng Nghymru, fel mewn lleoedd eraill, yn cael ei gweld fwyfwy o safbwynt economaidd. Nid yw hyn yn peri syndod a chofio'r manteision economaidd sylweddol y gall AU eu darparu a'r angen i gyfiawnhau graddfa'r buddsoddiad sydd bellach yn sail i'r systemau addysg uwch torfol mewn cymdeithasau modern. Ond roedd y grŵp yn glir iawn mai diben allweddol AU, a rhan o'i bŵer, yw datblygu

amgylchedd o ryddid academaidd yn fewnol, yn ogystal â phwyso a mesur, herio a dadlau y tu hwnt i'r SAU eu hunain gan feithrin gwerthoedd diwylliannol a dinesig, megis goddefgarwch a chydlyniant cymdeithasol, er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ac ehangach ar ddatblygiad cymdeithasol a gwleidyddol, a mynegiant diwylliannol a chreadigol.

Argymhellwn y canlynol:

bod sefydliadau AU yn hybu ymgysylltu, cyfranogaeth ddinesig, a diwylliant o herio adeiladol

cryfhau proffil a phresenoldeb AU yn natblygiad a mynegiant diwylliannol Cymru

49 AU fel Llysgennad Rhyngwladol dros Gymru - Yn wahanol i'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus eraill, mae addysg uwch yn gweithio ar lefel fyd-eang. Daw cyfran sylweddol o'r myfyrwyr yn ein SAU o'r tu allan i'r DU, tra bod academyddion yn cydweithio'n rheolaidd â phrifysgolion, diwydiant a sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn rhyngwladol, yn aml ar brosiectau a phartneriaethau uchel eu proffil. O'r herwydd, mae SAU yng Nghymru'n chwarae rôl bwysig yn helpu i adeiladu proffil ac enw da'r wlad. Er bod cryn weithgarwch rhyngwladol yn y sector AU yng Nghymru, rhaid cydnabod bod proffil Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol yn weddol fach (sy'n ddealladwy a chofio maint y wlad a'i statws datganoledig weddol newydd). Mae datblygiad ein system AU a'r pwyslais cynyddol ar bwysigrwydd cysylltiadau rhyngwladol yn cynnig cyfle da i Gymru gynyddu ei phresenoldeb ar y llwyfan byd-eang ac i ddenu pobl fedrus a buddsoddiad preifat i Gymru, er budd ein cymdeithas.

Argymhellwn y canlynol:

cynhyrchu strategaeth ar gyfer cefnogi ac adeiladu presenoldeb addysg uwch Cymru'n rhyngwladol yn ogystal â'i dyheadau i'r dyfodol

hybu cysylltiadau a phartneriaethau rhyngwladol drwy raglenni ymchwil ar y cyd, yn ogystal â chyfnewid a recriwtio myfyrwyr a staff

integreiddio cysylltiadau a chyrhaeddiad byd-eang addysg uwch yn well gyda rhaglenni rhyngwladol y llywodraeth a busnesau

CRYNODEB O'N HARGYMHELLION

50 I grynhoi, rydym yn awgrymu y dylai'r blaenoriaethau canlynol fod yn sail i gamau gweithredu penodol wedi'u targedu mewn strategaeth AU i Gymru ar ei newydd wedd:

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**	**Argymhellion ar gyfer gweithredu**
Creu'r amgylchedd i herio a chefnogi unigolion i gyflawni'r lefelau uchaf o fodlonrwydd personol, deallusol ac addysgol, waeth o ble y maent yn dod	Cydnabyddir yn rhyngwladol bod ansawdd y dysgu ac addysgu o'r lefel uchaf Gall pob un fyddai'n gallu cael budd o addysg uwch wneud hynny Mynediad ar gael at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ehangaf posibl i bawb sy'n dymuno manteisio ar hynny	Cyfleu swyddogaeth addysg uwch yn gliriach ac yn fwy priodol i amrediad o gynulleidfaoedd yng Nghymru: yn unigolion, yn fusnesau ac yn gymunedau. Ailystyried yr amrediad o raglenni ar gyfer pob oedran a lefel sy'n hyrwyddo dysgu a sgiliau, gyda'r bwriad o'u cyfuno dan amrediad llai o themâu allweddol Strategaeth Fynediad Genedlaethol i bob oed, ar ei newydd wedd, er mwyn targedu meysydd o gyfranogaeth isel ac i lunio trefniadau cefnogi Cyfuno'r llinynnau amrywiol o gefnogaeth a chyllid ar gyfer ehangu mynediad i nifer lai o flaenoriaethau a fydd yn cael mwy o effaith Rhaglen i geisio sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn aros ar gyrsiau ac yn eu cwblhau drwy ddarparu cefnogaeth bersonol a chefnogaeth i astudio, yn cynnwys llythrennedd ariannol a chyngor gyrfa Fframwaith clir a thryloyw ar gyfer bwrsarïau i fyfyrwyr ar sail prawf modd, sy'n adlewyrchu anghenion y dysgwr a dyheadau cenedlaethol yn gliriach. Ategir hyn drwy ddefnyddio ysgoloriaethau i roi sylw i anghenion recriwtio cystadleuol Bydd AU yn dod yn rhan hanfodol a chanolog o'r Polisi Gweddnewid i sicrhau mwy o gyfranogaeth, mwy o gydweithio a darpariaeth ddysgu wedi'i chynllunio'n fwy cydlynol Ystyrir datblygiad y Coleg Ffederal yng nghyd-destun strategaeth fynediad AU genedlaethol ar ei newydd wedd, a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn ar y fframwaith gyflenwi a'r compact. Caiff dysgu rhan amser ei gefnogi a'i fonitro mewn ffyrdd sy'n cydnabod ei arwyddocâd presennol ac i'r dyfodol o ran cyflawni dyheadau, cynhwysiant a datblygu'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r trefniadau cefnogi presennol a gyflwynwyd ar ôl adolygiad Graham.

Diben	Dyheadau ar gyfer Cymru	Argymhellion ar gyfer gweithredu
Meithrin ymchwil ac archwilio sy'n cyfrannu at gyfanswm gwybodaeth ddynol, p'un ai a ddefnyddir y darganfyddiad deallusol ar y pryd neu'n uniongyrchol ai peidio.	Caiff Cymru ei chydnabod yn rhyngwladol am ei rhagoriaeth ym maes ymchwil, gan ddenu'r ymchwilwyr gorau a chreu cymuned ymchwil ffyniannus a bydd hynny, yn ei dro, yn meithrin cryfder academaidd i'r dyfodol	Cyflymu'r gwaith sydd ei angen o ran cyfuno a meithrin gallu er mwyn gwella Perfformiad Ymchwil Cymru Rhaglen i wneud Cymru'n lleoliad o ddewis ymhlith ymchwilwyr ôl-radd ac sy'n cynyddu maint y gymuned ôl-radd yn sylweddol Buddsoddi mewn ymchwil sy'n adeiladu ar gryfderau presennol Cymru neu sy'n rhoi sylw i'r blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt, yn enwedig y sylfaen wyddoniaeth

Diben	Dyheadau ar gyfer Cymru	Argymhellion ar gyfer gweithredu
Ymelwa ar wybodaeth ac arbenigedd er mwyn gyrru twf economaidd cynaliadwy a chreu cyfoeth	Bydd arloesedd a chynhyrchedd, drwy ymelwa ar ymchwil, ei ddatblygu a'i fasnacheiddio, yn gweddnewid perfformiad economaidd Cymru	Cysylltiadau cryfach rhwng busnes ac AU a fydd yn cyfrannu at y galw ac yn cryfhau cyflenwad yr ymchwil a datblygu cymhwysol, yn ogystal â hyfforddiant Sefydliadau AU yn cryfhau eu swyddogaeth fel arweinwyr adfywio economaidd rhanbarthol

Diben	Dyheadau ar gyfer Cymru	Argymhellion ar gyfer gweithredu
Datblygu gwybodaeth, sgiliau lefel uchel a dealltwriaeth unigolion er mwyn gyrru economi sy'n gallu addasu, sy'n gynaliadwy ac sy'n arloesol	Caiff llwyddiant economaidd ei gryfhau gan sgiliau uchel, drwy raglenni a luniwyd ac a ddarparwyd ar y cyd â chyflogwyr, a thrwy dargedu meysydd o angen strategol y cytunwyd arnynt	Camau i ddatblygu gwell cydymwybyddiaeth a chyfathrebu rhwng busnes ac addysg uwch, yn ogystal â chyflenwi'r rhaglen yn effeithiol ac yn amserol Ffocws strategol agosach ar lefelau gwahanol o sgiliau lefel uchel (lefelau 3-5/6/7-8 Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru) sy'n cydnabod manteision unigryw lefelau sgiliau gwahanol a'r angen amdanynt, yn cynnwys rôl y Graddau Sylfaen, a chymwysterau gradd ac ôl-radd. Cynnal ymchwil i farchnadoedd cyflogaeth y dyfodol i hysbysu blaenoriaethau o ran sgiliau a pholisi (yn cynnwys mynegi hynny wrth y Cynghorau Sgiliau Sector). Partneriaethau rhwng AU, AB a chyflogwyr i lunio a chyflwyno rhaglenni sydd wedi'u cysylltu â meysydd pwnc â blaenoriaeth y cytunwyd arnynt, yn cynnwys meysydd pwnc gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

		Datblygu staff yn sylweddol er mwyn sicrhau addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel wedi'i alinio i anghenion pobl mewn cyflogaeth a'r rheini sydd eisiau bod yn rhan o'r farchnad lafur, yn cynnwys darparu yn y gweithle Gwella cyflogadwyedd graddedigion, drwy arddangos sgiliau generig hanfodol yn amlycach Annog prifysgolion i ddiffinio nodweddion graddedigion mewn partneriaeth â'r Academi Addysg Uwch a Chymdeithas Gwasanaethau Cynghori Gyrfa i Raddedigion Hyrwyddo lleoliadau gwaith yn fwy brwd drwy gydol rhaglenni israddedigion Adeiladu ar lwyddiant GO Wales Annog creu cymuned datblygu addysgol genedlaethol, gan ddefnyddio'r arbenigedd ym maes Addysg Gychwynnol i Athrawon ac eDdysgu yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth, yr Academi Addysg Uwch, ac arfer da sy'n deillio o brifysgolion, ysgolion a cholegau

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**	**Argymhellion ar gyfer gweithredu**
Helpu i feithrin cymdeithas ddemocrataidd, wâr a chynhwysol sy'n cydnabod hunaniaethau diwylliannol unigryw	Addysg uwch yn helpu i greu "diwylliant beirniadol" yng Nghymru sy'n ddeallusol uchelgeisiol ac yn huawdl, sy'n annog unigolion a chymunedau i gyfrannu'n frwd at fywyd dinesig, diwylliannol a democrataidd y wlad ac yn rhyngwladol.	Camau i adnabod rôl myfyrwyr yn fwy manwl, fel cyfranogwyr brwd a dylanwadol mewn addysg uwch, yn ogystal â datblygu blaenoriaethau polisi addysg uwch, er mwyn cyfrannau at wella'r holl amgylchedd dysgu bod sefydliadau AU yn hybu ymgysylltu, cyfranogaeth ddinesig, a diwylliant o herio adeiladol Cryfhau proffil a phresenoldeb AU yn natblygiad a mynegiant diwylliannol Cymru

Diben	**Dyheadau ar gyfer Cymru**	**Argymhellion ar gyfer gweithredu**
Chwarae rôl arweiniol wrth sicrhau bod Cymru'n cael ei chydnabod fel cyfrannwr gwerthfawr at y gymuned fyd-eang	Bydd ansawdd addysg uwch yng Nghymru'n golygu bod dysgwyr ac ymchwilwyr rhyngwladol, a busnes, yn dewis dod i Gymru, gan sicrhau bod Cymru'n aelod cyflawn	Cynhyrchu strategaeth ar gyfer cefnogi ac adeiladu presenoldeb addysg uwch Cymru'n rhyngwladol yn ogystal â'i dyheadau i'r dyfodol Hybu cysylltiadau a phartneriaethau rhyngwladol drwy raglenni ymchwil ar y cyd, yn ogystal â chyfnewid a recriwtio myfyrwyr

	o'r gymuned ryngwladol.	a staff Integreiddio cysylltiadau a chyrhaeddiad byd-eang addysg uwch yn well gyda rhaglenni rhyngwladol y llywodraeth a busnesau

Atebolrwydd	**Dyheadau ar gyfer Cymru**	**Argymhellion ar gyfer gweithredu**
Gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau ac arddangos arferion llywodraethu ac arwain o ansawdd uchel.	Caiff y sector addysg uwch ei gydnabod yn rhyngwladol am ansawdd ei drefniadau llywodraethu ac arwain, ac am yr enillion uchel y mae'r sector yn ei gyflawni am yr adnoddau.	Bydd Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu CCAUC yn ystyried yr argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad ynghylch partneriaeth ac arweiniad strategol.

51 Ar ôl nodi'r materion allweddol a'r meysydd blaenoriaeth, gwnaethom ystyried bod yr ymdrechion i fynd i'r afael â nhw yng Nghymru'n dibynnu ar dair her sylfaenol. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn allweddol:

- <u>Arweinyddiaeth strategol addysg uwch yng Nghymru.</u> Mae angen gweddnewid y berthynas rhwng llywodraeth a sefydliadau addysg uwch, a rhwng sefydliadau addysg uwch a'u rhanddeiliaid a'u partneriaid: yn ôl y gyfraith, mae sefydliadau AU yn gorfforaethau ymreolaethol, ond mae cyllid cyhoeddus, er ei fod yn lleihau, dal yn ffurfio rhan sylweddol o'u hincwm. Mae'r angen i gael y cydbwysedd cywir rhwng ymreolaeth ac atebolrwydd yn ffynhonnell o densiwn ymysg y rheini sy'n gyfrifol am gefnogi a darparu AU yng Nghymru. Gwnaethom nodi fod y berthynas rhwng disgwyliadau'r llywodraeth o'r sector ac ymdeimlad y sector o'i hawliau i weithredu'n ymreolus, neu yn wir ei gyfrifoldeb i wneud hynny, yn creu tensiwn y mae angen mynd i'r afael ag ef.

- <u>Ffurfweddu darpariaeth:</u> roedd yn amlwg i'r grŵp nad yw ffurfweddiad daearyddol na sefydliadol darpariaeth AU yng Nghymru mor addas ag y gallai fod i gyflawni'r mathau o fanteision yr ydym am eu gweld yng Nghymru, boed hynny o safbwynt dysgu neu ymchwil. Dywedwyd wrthym droeon na fyddai neb y dyddiau hyn yn llunio system yn debyg i'r hyn sydd gennym. Mae'r mater strwythurol hwn yn cael effaith sylweddol a phellgyrhaeddol ar berfformiad AU ar draws amrediad o weithgareddau, ac ar y cyfleoedd i bobl gael gafael ar addysg uwch o ansawdd uchel. Mae cyfrifoldeb ar bob sefydliad AU i fynd i'r afael â'r materion hyn ar frys, gan weithio â phartneriaid yn y sector AU ac mewn sectorau eraill.

- Buddsoddiad: roedd hon yn thema a gododd droeon drwy gydol yr adolygiad, ac mae'n ffynhonnell o bryder, tensiwn ac anghydfod, sy'n dominyddu proses gynllunio addysg uwch yn y presennol ac i'r dyfodol. Croesawodd y grŵp y cyhoeddiadau a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn Cam Un yr adolygiad hwn ynghylch cyllido o 2014-15 ymlaen. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen yn yr amgylchiadau economaidd sydd ohoni. Ond er mwyn sicrhau lefel cystadleurwydd y sector y mae Cymru'n ei mynnu, rhaid inni fynd i'r afael nid yn unig ag effeithlonrwydd y broses o ddarparu cyllid, ond hefyd â chyfanswm y buddsoddiad yn y sector. Yn hynny o beth, nid yw'n galonogol cymharu'r cyllid a neilltuwyd gan wahanol rannau'r DU ar gyfer AU yn 2009-10.

52 Yng ngoleuni'r materion uchod, roedd y grŵp wedi'i argyhoeddi nad oedd cynnal y drefn bresennol yn ddewis. Credwn y bydd mynd i'r afael â'r tri mater sylfaenol hyn yn y lle cyntaf yn gosod y seiliau ar gyfer gweddnewid y lleill yn barhaus. Mae gweddill yr Adroddiad yn ceisio rhoi sylw i bob un yn ei dro - cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth; ffurfweddu; buddsoddi - a chynnig ymateb heriol i bob un ohonynt.

ADRAN 4: MYND I'R AFAEL Â'R HERIAU GYDA'N GILYDD

Meithrin cysylltiadau i gryfhau AU yng Nghymru

53 Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, nid yw sefydliadau AU yn ffitio'n daclus yn y sector cyhoeddus nac ychwaith yn y sector preifat; er eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar gyllid cyhoeddus, yn ôl eu cyfansoddiad, cawsant eu sefydlu i weithredu fel cyrff preifat. Fel Grŵp, rydym yn unfrydol ein cefnogaeth i'r drefn gyfansoddiadol bresennol eang ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, sy'n rhoi annibyniaeth i sefydliadau ond sydd hefyd yn darparu atebolrwydd am gyllid cyhoeddus a roddwyd gan Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (sef CCAUC).

54 Y systemau addysg uwch mwyaf llwyddiannus yn y byd (e.e. yn UDA, y DU ac Awstralia) yw'r rheini sydd wedi dilyn y model hwn lle mae SAU yn gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth ac yn meithrin a gwarchod rhyddid academaidd, ond sydd hefyd yn gorfod dangos atebolrwydd clir am y cyllid cyhoeddus a gânt. Mae sectorau addysg uwch y gwledydd hyn wedi cynhyrchu'r cyfoeth mwyaf, y lefel uchaf o arloesedd o ran addysgu ac ymchwil, y proffil mwyaf yn fyd-eang, a'r twf cyflymaf mewn cyfranogaeth.

55 Prif fantais system o'r fath yw ei bod yn caniatáu sefydliadau addysg uwch i wneud eu penderfyniadau eu hunain o ran staffio, y cwricwlwm, a'u cenhadaeth, a thrwy hynny maent yn datblygu i fod yn ganolfannau sy'n meithrin chwilfrydedd deallusol, ymholi gwyddonol, trafodaeth a herio, sydd nid yn unig yn cael y gorau o staff a myfyrwyr, ond hefyd o gymdeithas yn gyfan.

56 Fodd bynnag, gall y model llwyddiannus hwn, a gaiff ei barchu'n rhyngwladol ac sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol fel conglfaen cymdeithasau rhyddfrydol, democrataidd, hefyd achosi cryn her i lywodraethau sy'n atebol i'w dinasyddion am gyllid cyhoeddus. Yr her i lywodraethau yw sut orau i sicrhau bod y cyllid cyhoeddus y maent yn ei ymrwymo i AU yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac at y dibenion sydd, o ran manteision gweladwy a phriodol, yn cyfiawnhau dyrannu cyllid cyhoeddus iddo. Yr her i SAU yw sut orau i ddangos atebolrwydd, nid yn unig ar i lywodraeth, ond hefyd i'r llu o ddarparwyr cyllid eraill y gallant gael mynediad atynt, ac i randdeiliaid eraill. Mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth yng Nghymru oherwydd bod AU yn fater sydd wedi'i ddatganoli ond mae cyllid y Cyngor Ymchwil a'r Sylfaen Wyddoniaeth dal yn gyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

57 Rhaid cael cysondeb o ran diben, cydymddiriedaeth rhwng llywodraeth a'i sector AU, ffocws unedig ar flaenoriaethau a gweithrediad tryloyw sydd y tu hwnt i unrhyw ddadl, er budd y rheini sy'n defnyddio ac yn cymryd rhan mewn addysg uwch a'r llywodraethau sy'n gorfod buddsoddi symiau sylweddol yn eu systemau AU. Mae'n glir hefyd bod rhaid i'r berthynas bara am y tymor hir. Ni ellir creu systemau na sefydliadau addysg uwch gwych dros nos. Mae cenhadaeth tymor hir,

arweinyddiaeth, buddsoddiad a chynnal perfformiad yn hanfodol i sefydlu cylch rhinweddol o gyflawniad ac enw da.

58 Nid yw hyn wedi digwydd eto yng Nghymru. Gwnaethom synhwyro rhwystredigaeth ymysg partneriaid. Mae'r naill ochr a'r llall am weld addysg uwch yn cyflawni mwy o fanteision i Gymru. Fodd bynnag:

- mae Llywodraeth y Cynulliad am weld tystiolaeth gliriach o addysg uwch yn cyflawni canlyniadau i Gymru fel ymateb i'w buddsoddiad, yn unol â'i chanlyniadau strategol, yn enwedig mewn meysydd strategol allweddol, megis twf ymchwil sydd ar flaen yn gad yn fyd-eang ac ymelwa ar yr ymchwil hwnnw, cyfranogaeth mewn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ehangu mynediad;

- mae rhai sefydliadau AU yn gochel rhag camau i ffurfweddu ac uno sefydliadau gan eu bod yn gweld hynny fel rhywbeth sy'n adlewyrchu ewyllys gwleidyddol yn hytrach na nodau addysgol, ac mae pob SAU yn ofni y bydd eu heffeithiolrwydd a'u gallu i gystadlu'n cael eu gwanhau oherwydd eu pryderon parhaus eu bod yn cael eu tangyllido o'i gymharu â gweddill y DU.

- mae'r sianelau ar gyfer rhyngweithio rhwng y llywodraeth ac AU hefyd wedi mynd yn annelwig: er bod gan CCAUC gyfrifoldeb cyffredinol dros gyllid craidd a monitro addysg uwch, mae gan sefydliadau unigol hefyd gysylltiadau prosiect a strategol uniongyrchol â swyddogion, adrannau a Gweinidogion gwahanol yn Llywodraeth y Cynulliad;

- ni all addysg uwch yng Nghymru fod ar y cyrion ond yn hytrach rhaid iddo fod yn ganolog i bolisi addysg prif ffrwd, sy'n aml yn cael ei weld o safbwynt dysgwyr ifanc, mewn adeg pan ellir dadlau bod gofyn am yr un faint os nad mwy o gefnogaeth ar anghenion dysgwyr hŷn; a

- phan fo fwy o angen nag erioed i Lywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â CCAUC, ddarparu arweiniad strategol a chyfeiriad polisi i addysg uwch yng Nghymru. Rhaid iddi adeiladu ar ei chryfderau a'i gallu i ddatblygu, cyfathrebu a chyflawni'r strategaethau, polisïau a'r newid sydd eu hangen i hybu proffil a pherfformiad addysg uwch yng Nghymru a sicrhau y gall chwarae rhan ganolog o ran ymateb i anghenion sgiliau, anghenion economaidd ac anghenion addysgol y wlad.

59 Mae safbwyntiau o'r fath yn cadarnhau i ba raddau y mae addysg uwch yn cyffwrdd â llawer o agweddau gwahanol ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r berthynas a'r ddealltwriaeth rhwng AU a'r Llywodraeth yng Nghymru fod yn ddyfnach, yn fwy aeddfed ac yn rhoi gwell ffocws os yw AU yn mynd i gyflawni ei photensial wrth ymateb i anghenion a dyheadau Cymru. Rhaid i bob

parti fod yn glir am swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd, ac yn fodlon tynnu i'r un cyfeiriad er budd Cymru. Mae hyn cyn bwysiced ag erioed y dyddiau hyn, wrth i ddisgwyliadau a chystadleuaeth ryngwladol mewn addysg uwch ddod yn fwyfwy dwys. Oni ellir miniogi'r berthynas strategol, rydym yn poeni am ddirywiad cymharol a bydd y bwlch yn lledaenu.

Dull Newydd o Weithredu

60 Felly, rydym yn credu bod angen i Gymru fod yn glir wrth ailddiffinio'r berthynas sy'n llywodraethu cyfeiriad ei system addysg uwch a'i rheolaeth drosti. Mae angen datganiad clir o ddiben, gydag eglurhad o swyddogaethau, cyfrifoldebau a disgwyliadau yn gefn iddo. **Dylai hwn fod yn sail i Gompact Cenedlaethol rhwng sefydliadau addysg uwch, darparwyr AU eraill, CCAUC a Llywodraeth y Cynulliad.** Nid ydym yn rhagweld y bydd y compact hwn yn sefydliad nac yn gorff newydd, ond yn hytrach ymrwymiad parhaol gan yr holl bartïon, a fframwaith ar gyfer perthynas waith newydd gan ddefnyddio'r mecanweithiau presennol yn fwy effeithiol. Caiff yr ymrwymiad hwn ei fynegi a'i fesur drwy gytuno, gwneud datganiadau clir, a glynu wrth y canlynol:

- swyddogaethau a chyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad, CCAUC, y sefydliadau AU a'u partneriaid/darpar bartneriaid, o ran addysg uwch;
- beth ddylai bob partner ei ddisgwyl gan y partneriaid eraill;
- ymddygiadau ac egwyddorion y dylai pob partner eu harddangos, yn cynnwys:
  - Dangos "ymwybyddiaeth fyd-eang ond ymateb lleol" i flaenoriaethau polisi;
  - agwedd "Cymru'n gyntaf" at benderfyniadau ar y cyd am ddatblygiadau strategol mawr megis uno, cydweithredu a chydweithio;
  - tryloywder, ymddiriedaeth a pharch i'w gilydd.

61 Dylai'r Compact hwn ail-ategu cyfeiriad addysg uwch a'i ddarpariaeth mewn ffordd dryloyw. Dylai pob parti gydweithio wrth nodi'r hyn y dylai'r compact hwn gyflawni dros Gymru, yn cynnwys:

- cytuno ar ddiben addysg uwch (rydym yn awgrymu y dylai'r datganiadau o ddiben ym mharagraff 4 fod yn sail i hyn)
- y cyfraniad y dylai addysg uwch ei wneud yng Nghymru at flaenoriaethau strategol Llywodraeth y Cynulliad;
- llywodraethu a rheoli polisïau a darpariaeth sy'n magu hyder a sicrwydd yn ei gilydd;
- ymrwymiad i fuddsoddiad, dosbarthu'r buddsoddiad yn effeithiol, a'r hyn y mae'n mynd i'w gyflawni;
- patrwm o ddeialog ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd rhwng yr holl bartïon sy'n sail i gydymddiriedaeth, diben a hyder.

62 Bydd fframwaith o'r fath yn gweddnewid hyder a gweithrediad AU yng Nghymru a'r manteision y mae AU yn eu rhoi i Gymru.

63 Rhagwelir y bydd y Compact Cenedlaethol yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar y blaenoriaethau a nodwyd yn yr adroddiad hwn, fel y cânt eu rhestru yn y tabl ym Mharagraff 50. Fel rhan o'i waith, mabwysiadodd y Grŵp Adolygu argymhellion polisi manwl ynghylch y manteision hyn. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi fel sail a chanllaw i'r trafodaethau hyn.

Cael Cydbwysedd

64 Bydd y compact cenedlaethol ar gyfer AU a gynigwn yn gosod y naws ar gyfer y perthnasoedd a fydd yn arwain AU am flynyddoedd i ddod. Rydym yn rhagweld y bydd dod â'r holl bartïon ynghyd yn creu agwedd tîm Cymru at ragoriaeth mewn addysg uwch, y mae Cymru, fel gwlad fach, mewn lleoliad unigryw i fanteisio arno i'r eithaf. Gydag ymdeimlad o undod rhwng yr holl bartneriaid, credwn y bydd AU yng Nghymru o'r diwedd yn gallu cyflawni i'w llawn potensial gan ddarparu llu o fanteision economaidd a chymdeithasol i Gymru ac i'r byd yn ehangach.

Y materion gwaelodol: ffurfweddiad a buddsoddiad

65 Ym mharagraff 51 uchod, gwnaethom nodi tri mater allweddol. Rhoddwyd sylw uchod i'r mater cyntaf, sef arweinyddiaeth strategol dros AU yng Nghymru, a'r materion y mae hynny'n eu codi o ran y berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad, CCAUC a'r sector. Caiff y ddau fater allweddol arall, sef ffurfweddu AU yng Nghymru a'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn sicrhau bod anghenion a dyheadau Cymru yn cael eu diwallu, eu trafod mewn mwy o fanylion yn yr adran nesaf.

ADRAN 5: TREFNU ADDYSG UWCH AR GYFER Y DYFODOL

Dull newydd o roi sylw i allu'r sector i ddarparu

66 Gwnaeth lawer o'r rhanddeiliaid a ysgrifennodd at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, neu a roddodd gyflwyniadau iddynt, ddatgan y gallai'r sector wella ei berfformiad drwy gydweithio fwy a llunio ffyrdd newydd o drefnu darpariaeth. Rydym yn cytuno â'r casgliadau hyn ac rydym bellach yn cynnig dull newydd o fanteisio i'r eithaf ar botensial darpariaeth AU yng Nghymru.

67 Gwnawn y sylwadau canlynol yn seiliedig ar y gred bod cyfleoedd ar gael i greu màs critigol, i resymoli darpariaeth lle bo hynny'n briodol ac i rannu yn hytrach na dyblygu adnoddau. Gwnaethom nodi:

- bod sefydliadau yng Nghymru ar y cyfan yn llai na'r rheini yng ngweddill y DU;
- bod gan Gymru mwy sefydliadau AU y pen o'r boblogaeth o'i gymharu â gwledydd eraill y DU;
- er bod y ddarpariaeth addysg uwch wedi'i gwasgaru'n ddaearyddol yng Nghymru, ar y cyfan, nid yw wedi cael ei gwasgaru'n deg ac nid yw ychwaith wedi'i mapio yn ôl poblogaeth. Mae hyn yn arwain at oblygiadau pwysig o ran mynediad lleol at addysg uwch, ac o ran datblygu'r gweithlu;
- ymddengys bod cyfleoedd ar gyfer rhesymoli darpariaeth mewn rhai ardaloedd;
- bod màs critigol yn hanfodol i berfformiad ymchwil, yn enwedig ym maes Gwyddoniaeth, a cheir prinder màs critigol mewn llawer o unedau ymchwil yng Nghymru a gwendid o ran maint a dyfnder y sylfaen wyddoniaeth gyffredinol;
- bod costau gweinyddol SAU yng Nghymru'n ymddangos yn debyg i'r cyfartaledd yn y DU ac maent yn cynyddu'n gyffredinol yn unol â lefelau cyfartalog y DU (ond wedyn, roeddem yn teimlo y gellid cael gweinyddiaeth dynnach a mwy effeithlon);
- bod iechyd ariannol y rhan fwyaf o SAU yng Nghymru wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae CCAUC a'r sector AU yn parhau i bryderu bod graddfa'r gwargedion yn annigonol ar gyfer lefelau'r buddsoddiad sydd eu hangen i sicrhau cystadleurwydd a chynaliadwyedd tymor hir;
- mai'r Gronfa Ad-drefnu a Chydweithredu yw'r unig offeryn sylweddol sydd ar gael ar gyfer newid strwythurol yn y sector AU ar hyn o bryd. Hyd yma, fe'i defnyddiwyd i gefnogi dau uniad AU-AU llwyddiannus, un uniad AU-AB, ac mae uniad AU-AU arall yn cael ei drafod yn frwd adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn ogystal â nifer o gynlluniau eraill i gydweithredu yn cynnwys cydweithio ym maes ymchwil a'r swyddfa gefn. Fodd bynnag, ni chwblhawyd rhai cynlluniau ar gyfer uno ac ail-ffurfweddu yn llwyddiannus, a hynny am amrywiol resymau, er bod CCAUC a Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y byddai hynny wedi bod yn briodol.

Ail-ffurfweddu a chydweithredu

68 Yn 2002, nododd *Ymgeisio yn Uwch* fod "rhaid i ail-gyflunio a chydweithio fod yn elfen ganolog yn y strategaeth ar gyfer AU yng Nghymru" ac "ni ellir cyrraedd y canlyniadau a geisiwn ar gyfer AU heb ymgyrch sylfaenol i sicrhau cydweithio ac i ad-drefnu'r strwythurau yn y sector", sef neges sy'n atsain drwy'r holl ddogfen.

69 Mewn gwirionedd, neges allweddol *Ymgeisio yn Uwch* oedd nad oedd gan SAU yng Nghymru y graddfa na'r cwmpas i gystadlu yn erbyn sefydliadau yng ngweddill y DU (a thu hwnt) o ran denu arian o ffynonellau allanol (e.e. y Cynghorau Ymchwil) nac yn eu gallu i gymryd risgiau ac arloesi. Roedd y ddogfen, felly, yn awgrymu cydweithredu a ffurfweddu agosach rhwng SAU yng Nghymru. Glynwyd wrth y polisi hwn ers hynny, gyda chyllid prosiect sylweddol yn gefn iddo.

70 Er bod hwn wedi bod yn ganolog i strategaeth AU dros y blynyddoedd diwethaf, roeddem yn bryderus ei fod wedi datblygu i fod yn rhyw fath o "fantra". Y dybiaeth waelodol yw bod ail-ffurfweddu'n gallu esgor ar arbedion costau o ganlyniad i arbedion maint a gall ddarparu manteision drwy greu sefydliadau gyda màs critigol mwy. Er bod rhesymeg gref dros yr angen i ail-ffurfweddu, yn cynnwys uno, byddai'n bosibl gwneud arbedion o ran costau, arbedion maint a mwy o fàs critigol hefyd drwy gael gwell integreiddio systematig rhwng darparwyr a drwy gyfrwng gweithgareddau megis rhannu gwasanaethau a chynllunio strategol ar y cyd ymhlith y rheini yn y sector. Dylid hefyd cael manteision drwy gydweithio fwy gyda chyrff sector cyhoeddus eraill megis Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ayb. a gyda'r sector preifat.

71 Roedd *Ymgeisio yn Uwch* hefyd wedi bwriadu i "addysg uwch yng Nghymru gael ei diffinio'n bennaf gan rwydweithiau rhagoriaeth yn hytrach na sefydliadau". Er y gall rhwydweithiau o'r fath ddatblygu ac esblygu'n naturiol, mae gan y cysyniad o "brifysgol", a phrifysgol ffisegol yn hytrach na rhith-brifysgol, arwyddocâd cryf ac eang o hyd. Mae apêl bwerus yn y syniad o "fy mhrifysgol" ymhlith y rheini sy'n perthyn iddi, ei staff, ei myfyrwyr a'i chyn-fyfyrwyr, ac yn aml mae'n offeryn effeithiol ar gyfer codi arian a denu buddsoddiad. Mae ganddo hefyd gysylltiad emosiynol cryf i'r cymunedau a'r rhanbarthau lleol a gall helpu i roi hunaniaeth a balchder i drefi a dinasoedd. Yn rhyngwladol, mae brand sefydliad unigol yn llawer mwy dylanwadol, ac mae'n fwy tebygol o ddal sylw, fel endid diriaethol, na'r cysyniad weddol lac o "rwydwaith". Yn olaf, rhaid cydnabod bod SAU yn sefydliadau annibynnol go-iawn, a hanesyddol yn aml, sy'n cyflogi staff, yn cofrestru myfyrwyr ac yn ysgwyddo'r holl oblygiadau cyfreithiol o wneud hynny.

72 Ar ben hynny, nid oes cymaint o ffiniau mwyach i SAU a chymunedau academaidd rhag cydweithio, a gall hyn arwain at arloesedd hynod werthfawr, datblygu arbenigedd a chreu cyfoeth. Mae rhwydweithiau o'r

fath yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, na'r rheini sy'n cael eu ffurfio o fewn Cymru.

73 Roeddem yn teimlo bod rhaid datblygu dull doethach o ddelio â'r heriau y mae AU yn eu hwynebu, wedi'u gyrru gan y manteision strategol a geisiwn ar ffurf allbynnau. Dylai'r ffurf ddod ar ôl y swyddogaeth, ac ni ddylai fod yn nod ynddo'i hun. Felly, yn ein barn ni, mae angen cyfleu'n gliriach y canlyniadau strategol sydd y tu ôl i'r awydd i weld mwy o uno ac ail-ffurfweddu ac yna i weithio gyda'r sector AU, drwy broses y Compact, i ymateb i'r canlyniadau hyn.

74 Mae'r dull hwn yn gofyn am ddatganiad clir o'r canlyniadau a'r allbynnau lefel uchel y mae'r Llywodraeth yn eu ceisio gan addysg uwch o ran blaenoriaethau strategol ehangach Llywodraeth y Cynulliad, megis gweddnewid cymdeithas ac economi Cymru, a'r agendâu sgiliau, mynediad a chyfranogaeth.

75 Oni chaiff hyn ei gyfleu'n glir, bydd yr achos dros ail-ffurfweddu'n dibynnu gormod ar ffactorau ariannol, neu dybiaethau am fanteision sy'n cronni o gynyddu capasiti'n gyffredinol. Mae profiad o fewn a thu allan i Gymru'n dangos bod canlyniadau yn fwyaf effeithiol pan fydd achos strategol wedi'i gyfleu'n glir a bod yna gyfres o amcanion.

76 Mae'r dull hwn yn cydnabod bod ail-ffurfweddu'n ffordd bwerus o helpu'r sector AU i gyflawni'r manteision sy'n cael eu ceisio yng Nghymru, ond mae'n cydnabod, ar yr un pryd, na fydd hyn yn unig yn debygol o gyflawni'r manteision o ran ansawdd a chapasiti addysg uwch. Ceir dylanwadau allweddol eraill:

- arweinyddiaeth a rheolaeth sefydliadol effeithiol, llawn egni a chraff;
- trefn lywodraethu sy'n cynnig her adeiladol a chadarn ac sy'n cynrychioli ehangder y rhanddeiliaid allweddol;
- adnoddau digonol i alluogi effeithiolrwydd parhaus;
- gwybodaeth a chonsensws am anghenion a gofynion dysgwyr a busnes;
- y gallu i ymateb yn effeithiol i anghenion a gofynion newidiol;
- cydnabyddiaeth a chefnogaeth amserol os oes cyfleoedd ar gyfer tyfu a datblygu;
- ffocws strategol sy'n galluogi recriwtio parhaus a darpariaeth effeithiol;
- cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio systemig yn enwedig o ran rhannu gwasanaethau, cynllunio strategol ar y cyd a gwasanaethau i ddysgwyr/myfyrwyr;
- cydweithio gwirioneddol ym maes ymchwil ar draws sefydliadau yng Nghymru;
- cydweithio gyda chyrff sector cyhoeddus a sector preifat eraill;
- coleddu'r agenda rhyngwladoli'n llwyr.

77 Credwn fod angen i'r pwyslais gael ei roi yn awr ar ganlyniadau a darpariaeth effeithlon yn hytrach na dibynnu ar ail-ffurfweddu yn unig. Yr hyn sydd ei angen yw newid sylfaenol mewn perfformiad, a dylid annog newid strwythurol a chael pob parti i weithio'n egnïol i gyflawni hyn os yw'n amlwg ei fod yn arwain at welliant o'r fath.

Mynd i'r afael â'r heriau yng Nghymru

78 A chofio'r materion uchod, mae'n bwysig datgan bod y dystiolaeth a'r sylwadau a adolygasom yn nodi bod achos cryf o hyd dros greu a chyfuno màs critigol, yn enwedig ym maes ymchwil ac o ran ail-ffurfweddu'n ehangach, yn cynnwys uno, lle gellir pennu a chyflawni canlyniadau clir.

79 Ond er mwyn cyflawni'r newid sylfaenol dymunol mewn perfformiad y mae pob un ohonom yn ei ddeisyfu, credwn fod cyfle da yng Nghymru i fynd cam ymhellach, yn hytrach nag ail-ffurfweddu yn unig, drwy fabwysiadu dull newydd ac arloesol a fydd yn ysbrydoli'r holl bartneriaid yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd a helpu i gyflawni potensial AU.

Fframwaith Newydd ar gyfer AU yng Nghymru

80 Rydym yn cynnig creu fframwaith newydd ar gyfer AU yng Nghymru – system AU sydd ar gael yn eang ond hefyd yn gystadleuol yn fyd-eang; sy'n rhagori wrth ddarparu dysgu lefel uwch, o ran cyflogadwyedd graddedigion, ac ym mherfformiad ymchwil a'r gallu i ymwela arno. Wrth galon hynny, bydd sefydliadau AU cryf, bob un ohonynt â chenhadaeth wedi'i diffinio'n glir ac sydd yn ddigon o faint i arloesi, cymryd risgiau a chyflawni'r genhadaeth honno'n effeithiol.

81 Bydd y sefydliadau hyn yn cydweithio â SAU y tu mewn a'r tu allan i Gymru. Ond y tu fewn i Gymru, byddant hefyd yn arwain partneriaethau gyda Cholegau Addysg Bellach a phartneriaid eraill (gweler isod). Mae partneriaethau â'r sector addysg bellach yn chwarae rôl bwysig yn y fframwaith hwn, sef rôl sy'n cryfhau, yn hytrach na gwanhau, diben a chenhadaeth unigryw y sector AB. Drwy weithio gyda'i gilydd byddant yn sicrhau dosbarthiad effeithiol o addysg uwch i bob rhan o Gymru, ac yn sicrhau bod y rheini a allai gael budd o addysg uwch yn gallu cael mynediad ato. Bydd y gymuned hon o bartneriaid yn cysylltu'n agos ag anghenion dysgu a sgiliau y gweithlu yng Nghymru yn y presennol ac i'r dyfodol, ac yn gweithio fel cymuned gyda chyflogwyr i ganfod y cyfleoedd gorau o ran mynediad a darpariaeth, a'r cyfleoedd ar gyfer ymchwil, y defnydd ohono a'r cyfle i'w fasnacheiddio.

i) carfan gyfunol ond amrywiol o SAU cryfach a chynaliadwy

82 Yn y dyfodol, mae'n debyg y bydd llai o SAU nag sydd ar hyn o bryd, ond bydd dosbarthiad daearyddol addysg uwch yn ehangach. Byddai hyn yn cynnwys dosbarthiad sector sgiliau yn seiliedig ar brifysgolion

gydag arbenigedd priodol i ymestyn allan i ymgysylltu â chymunedau, cyflogwyr a mudiadau eraill, yn cynnwys y Trydydd Sector.

83 Wrth weithredu'r Compact cenedlaethol, fel dull Cymru gyfan sy'n rhoi sylw i AU, byddai angen ystyried y blaenoriaethau strategol ar gyfer Cymru, a phenderfynu, os yn bosibl, ymhle mae angen gwneud newidiadau.

84 Bydd y trafodaethau hyn yn helpu i bennu'r ffordd orau o gyflawni'r canlyniadau gofynnol ac yn helpu i nodi blaenoriaethau newydd. Dylai'r rhain ffurfio'r sylfaen strategol ar gyfer pennu p'un ai a gaiff addysg uwch ei ddarparu, ymhle a sut. Mae angen bod yn dryloyw a nodi canlyniadau hollol ddealladwy wrth drafod a phenderfynu ar faterion sensitif, megis ail-ffurfweddu.

85 Dylid ehangu'r meini prawf ar gyfer cefnogi cydweithio a chydnabod y manteision i Gymru o wreiddio cysylltiadau y tu allan i'r sector AU a'r tu allan i Gymru. Mae angen i'r meini prawf hyn gael eu hadlewyrchu yn y cymhellion ariannol a gaiff eu cynnig i annog cydweithio ac uno.

86 Credwn y bydd y fframwaith hwn, os buddsoddir yn ddigonol ynddo (gweler isod), yn creu'r seilwaith ar gyfer system addysg uwch yng Nghymru sy'n cystadlu'n rhyngwladol ac yn ymateb yn lleol. Wrth galon y system hon, bydd sefydliadau cystadleuol, hyderus, sy'n recriwtio'n frwd yng Nghymru, yng ngweddill y DU, yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

ii) Swyddogaeth ddiwygiedig i bartneriaethau rhwng Addysg Uwch ac Addysg Bellach

87 Mae llawer o bartneriaethau'n bodoli ar hyn o bryd rhwng SAU, Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) a chyflogwyr. Mae gan SAB hanes hir o ddarparu cymwysterau megis Diplomâu Cenedlaethol Uwch ac, yn fwy diweddar, Graddau Sylfaen – ac mae rhai SAU hefyd yn cael eu cyllido gan Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu cymwysterau galwedigaethol i oedolion sy'n cael eu cysylltu gan amlaf â SAB.

88 Dan y trefniadau deddfwriaethol presennol, rhaid i unrhyw bartneriaeth rhwng SAU, SAB, a chyflogwyr sy'n ymwneud â darparu addysg uwch gynnwys dyfarniad cymhwyster y partner AU. Bydd camau deddfwriaethol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y Cynulliad yn rhoi dewis i SAU geisio pwerau drwy'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r Cyfrin Gyngor i ddyfarnu Graddau Sylfaen yn y dyfodol.

Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru



89 Yn y dyfodol, rydym yn rhagweld y bydd SAB yn parhau i gyfrannu at ddarparu addysg uwch drwy bartneriaeth lle bydd y radd yn cael ei rhoi gan SAU – ac rydym yn tybio y bydd rhai SAB yn ceisio pwerau i ddyfarnu Graddau Sylfaen. Dan y naill sefyllfa a'r llall, credwn y dylai swyddogaeth SAB o ran darparu addysg uwch gael ei chyfeirio tuag at sicrhau

- gwell mynediad lleol at sgiliau a dysgu lefel uwch, yn benodol lle mae SAB:
  - yn ddaearyddol nes at boblogaethau, cymunedau a busnesau;

- eisoes wedi sefydlu cysylltiadau cryf â busnesau;
- yn meddu ar gryfderau amlwg ym maes y ddarpariaeth
- eisoes mewn partneriaeth â SAU drwy'r agenda weddnewid.

- llwybrau cynnydd di-dor at gyfleoedd dysgu uwch lle bo hynny'n bosibl drwy bartneriaethau rhwng AU ac AB, neu, lle bo hynny'n briodol, â SAU eraill;
- mwy o gyfleoedd ar gyfer addysg uwch ran amser ac addysg uwch seiliedig ar waith oherwydd rhesymau personol neu resymau'n ymwneud â lleoliad sy'n golygu nad yw'n bosibl astudio'n uniongyrchol dan fantell SAU.

90 O ran darparu a dyfarnu Graddau Sylfaen, rydym yn argymell mai'r rheini sydd yn y sefyllfa orau i gynnig lefel, natur ac ansawdd priodol y ddarpariaeth ddylai wneud hynny. Byddai hyn yn caniatáu i'r partïon perthnasol wneud penderfyniadau a dod i gytundeb yn lleol, yn ogystal â gweithredu cytundebau sector cyflogaeth ranbarthol, o fewn cyd-destun cyffredinol y Compact Cenedlaethol, sy'n cael eu gyrru gan flaenoriaethau cenedlaethol y cytunwyd arnynt. Dylid canolbwyntio ar adeiladu cryfder a chapasiti ar y cyd, ac ar alluogi'r holl bartneriaid i feithrin ac ymelwa ar eu cryfderau a'u harbenigedd priodol, gan osgoi cystadleuaeth gostus a diangen ar yr un pryd. Dylai hyn leihau'r perygl bod yr holl bartneriaid yn gwyro oddi wrth eu cenhadaeth.

91 Rydym yn cydnabod bod llawer o bartneriaethau o'r fath eisoes ar waith yn llwyddiannus yng Nghymru. Mae'r argymhelliad hwn yn cynrychioli fframwaith strategol cenedlaethol gwirioneddol ar gyfer datblygu unigolion yng Nghymru i'r lefel uchaf o gyflawniad, o fewn fframwaith addysgu, dysgu ac ymchwil cydlynol. Afraid dweud y bydd angen i'r ddarpariaeth addysgu a dysgu barhau i ddiwallu'r safonau Sicrhau Ansawdd mwyaf manwl.

92 Mae'r dull hwn o weithredu'n gyson â strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Gweddnewid darpariaeth ôl-16 yng Nghymru, a'r Llwybrau Dysgu 14-19 ar gyfer pobl ifanc. Credwn fod y Strategaeth Weddnewid yr un mor berthnasol i'r lefelau uchaf o ddysgu. Mae gan y sector addysg uwch gyfraniad anferth yn hyn o beth, a bydd angen i sefydliadau weithio fel partneriaid yn y Strategaeth Weddnewid os yw Cymru am gyflawni'r weledigaeth yn Cymru'n Un - "cymdeithas lle mae dysgu gydol oes yw'r norm".

ADRAN 6: BUDDSODDIAD AC ADNODDAU

93 Mae'r fframwaith arfaethedig newydd ar gyfer AU yng Nghymru'n rhoi sylw i fater darparu'n effeithlon a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau. Nid yw'n sôn am lefel y buddsoddiad nac ychwaith pa mor ddigonol ydyw i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn gystadleuol yng nghyd-destun y DU ac yn fyd-eang, mae'r materion hynny i'w trafod eto. Y prif bryder a fynegwyd inni oedd lefel y cyllid cyhoeddus a gaiff addysg uwch yng Nghymru, hyd yn oed ar ôl y cyhoeddiadau, a groesawyd gan y grŵp, a wnaethpwyd ar ôl Cam Un yr Adolygiad.

94 Teimlwn fod angen esbonio'n ofalus pam fod y lefel hon o bryder yn bodoli. Nid yw hwn yn fater syml o wasanaeth cyhoeddus arall yn pledio'n barhaus am lefelau uwch o gyllid. Mae buddsoddi mewn addysg uwch yn arwain at enillion clir yn y tymor byr a'r tymor hir. Rhaid i brifysgolion a SAU fod yn gystadleuol os ydynt am oroesi. Ystyriwch yr enghraifft hon: Mae myfyrwyr rhyngwladol yn allweddol i lwyddiant prifysgolion yng Nghymru, yn ogystal â gweddill y DU. Maent yn creu profiad rhyngwladol gwirioneddol i'r holl fyfyrwyr ond maent hefyd yn dod ag enillion gwirioneddol i'r buddsoddiad - maent yn cyfrannu £200 miliwn at economi Cymru'n flynyddol. Fodd bynnag, gallai pob un o'r 12,000 o fyfyrwyr rhyngwladol fod wedi dewis mynd i unrhyw le arall yn y byd. Mae angen i Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru gystadlu'n fyd-eang a dangos menter ac ymroddiad i farchnata a recriwtio'n fyd-eang.

95 Rhaid i SAU ei hunain weld y cyllid cyhoeddus a gânt fel buddsoddiad, a rhaid iddynt ddangos enillion gwirioneddol, ac yn hynny o beth, rydym, gobeithio, wedi dangos ein bod yn argyhoeddedig bod rhaid i SAU yng Nghymru wneud mwy i wneud y defnydd mwyaf effeithiol posibl o'r buddsoddiad ynddynt. Ond wedi dweud hynny, ni ellir osgoi'r gydnabyddiaeth o sefyllfa unigryw addysg uwch fel derbynnydd cyllid cyhoeddus a chynhyrchwyr buddsoddiad ychwanegol sylweddol o ffynonellau eraill. Golyga hyn fod rhaid i sefydliadau gynnal a chadw enw da academaidd sy'n gallu cystadlu'n rhyngwladol, heb sôn am gystadlu ledled y DU ac yn rhyngwladol am staff, myfyrwyr a buddsoddiad. Bydd methu â gwneud hyn yn cael effaith ar enw da a chyfoeth ehangach Cymru wrth i SAU greu llai o enillion, llai o wariant gan fyfyrwyr a llai o gyfle i ymelwa ar ymchwil a recriwtio staff o'r radd flaenaf.

96 Mynegwyd pryderon yn gryf iawn o fewn y grŵp, ac o'r tu allan, bod Cymru'n dechrau colli'r ras yn erbyn sectorau AU y tu allan i Gymru. Mynegodd lawer o bobl a ysgrifennodd atom bryderon am lefelau cyllid gan dynnu sylw at yr anhawster cynyddol o gystadlu yn erbyn sefydliadau yn Lloegr o ran buddsoddi yn y seilwaith a recriwtio staff, ac mae hynny, yn eu tro, yn effeithio ar brofiad myfyrwyr. Roedd y grŵp o'r farn bod tystiolaeth gref iawn ynghylch bodolaeth y bwlch mewn cyllid rhwng yr hyn a dderbyniwyd gan sefydliadau yng Nghymru o'i gymharu â SAU yn Lloegr a'r Alban, hyd yn oed ar ôl ystyried yr amrediad llawn o ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael yng Nghymru a allai wella'r sefyllfa.

97 Yn adroddiadau *Bwlch Cyllid* blynyddol CCAUC, maent wedi amcangyfrif bod y bwlch mewn darpariaeth graidd (a wneir drwy'r cynghorau cyllido) rhwng Lloegr a Chymru yn cynyddu o £12–26m yn 2003-04 i £70m yn 2005/6, yn lleihau ychydig i £55-66m yn 2006/7, ac yn lleihau ychydig yn 2007-08. Mae effaith gronnus y diffyg hwn mewn cyllid yn dechrau cael effaith sylweddol a negyddol ar berfformiad ac ar forâl y sector AU yng Nghymru. Fel grŵp, rydym yn derbyn canfyddiadau CCAUC. Ceir nifer o resymau pam fod y bwlch cyllido hwn wedi datblygu; yr her nawr yw penderfynu sut y gall Cymru fynd i'r afael ag ef yn yr amgylchiadau heriol presennol.

98 Er gwaethaf y sefyllfa hon, rydym yn ystyried bod perfformiad y sector AU yng Nghymru mewn rhai ffyrdd yn gymeradwy. Fodd bynnag, wrth edrych tua'r dyfodol, rydym yn rhagweld perygl gwirioneddol o ddisgyn i gylch dieflig, gyda llai o fuddsoddiad, perfformiad gwaeth, llai o incwm a llai o gyfoeth yn cael ei gynhyrchu. Ni allwn fychanu'r effaith y gallai hyn ei gael ar Gymru gyfan. Rydym yn argymell bod yr holl bleidiau yng Nghymru'n gwneud ymrwymiad, fel rhan o'r compact newydd rhwng y sector a'r llywodraeth, i gau'r bwlch hwn dros gyfnod o amser ac rydym yn croesawu'r ymrwymiad y caiff cyllid sylweddol a ryddheir wrth ddileu'r Grant Ffioedd Dysgu ei ddefnyddio i roi'r broses hon ar waith.

99 O ran sicrhau hyder, mae cynllunio'n strategol, gweddnewid perfformiad addysg uwch yn barhaus, a chael sicrhad tymor hir am lefel y buddsoddiad cyhoeddus y gellir ei ddisgwyl mewn addysg uwch, yn hollol hanfodol.

100 Fel grŵp, roeddem yn bryderus iawn am y pwnc hwn ond roeddem hefyd yn realistig am yr hyn y gellid ei wneud i'w ddatrys. Mae'n bosibl y bydd cau'r bwlch yn cymryd blynyddoedd ac mae hyn yn hynod o heriol a chofio'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Fodd bynnag, mae enw da a chyfoeth Cymru i'r dyfodol yn dibynnu ar hyn.

ADRAN 7: CASGLIAD

101 Credwn fod y dull y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau hyn yn allweddol i gyfoeth a lles Cymru, wrth i Gymru ddod allan o'r dirwasgiad ac yn y tymor hir. Mae ein gallu i gystadlu'n economaidd, ac i gyflawni ein potensial fel gwlad ifanc, ddatganoledig, gyda disgwyliadau uchel yn dibynnu ar allu Cymru i fanteisio ar botensial addysg uwch.

102 Mae angen clir i ail-leoli addysg uwch yn ein blaenoriaethau cenedlaethol o hyn allan. Rhaid iddo fod yn ganolog i'r dasg o greu cymunedau bywiog a chwilfrydig mewn Cymru sy'n ffynnu ac sy'n ddiwylliannol frwd. Rhaid i'r sector addysg uwch ei hun ymateb i'r her honno gyda dychymyg ac ymroddiad.

Atodiad 1: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Phartneriaid yn Ystod Cam 2

1 Gan ei fod yn adolygiad strategol eang ei gwmpas, cytunodd y grŵp ei bod yn bwysig ymgysylltu gymaint â phosibl â rhanddeiliaid, gan ddenu gwybodaeth o amrediad mor eang â phosibl o ffynonellau o fewn yr amserlen ar gyfer yr adolygiad. Er mwyn ymgysylltu mor eang â phosibl a chael yr effaith fwyaf, defnyddiodd y grŵp ystod o ddulliau, yn cynnwys:

- cyflwyniadau gan randdeiliaid i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen;
- gwahoddiadau gan y cadeirydd i ddarparu sylwadau ysgrifenedig i'r grŵp (drwy'r ysgrifenyddiaeth);
- grwpiau ffocws a seminarau;
- cyfarfodydd ysgrifenyddol â rhanddeiliaid.

2 Yn ogystal â'r dulliau uchod, dadansoddwyd ymatebion i arferion ymgynghori diweddar a pherthnasol i ganfod y negeseuon pwysig. Roedd hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

- Ymgynghoriad *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*
- Trawsgrifiad o gyfarfodydd a sylwadau a gyflwynwyd i Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr *Ymchwiliad i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru*.
- Ymgynghoriad Polisi Gwyddoniaeth i Gymru

3 Cafwyd 21 ymateb ysgrifenedig gan y sefydliadau canlynol:

Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Glyndŵr
Prifysgol Cymru Casnewydd
Prifysgol Abertawe
Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Fforwm
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)
Cadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CHEW)
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Cynghorau Ymchwil y DU
Gyrfa Cymru
Partneriaid SEWRW
Partneriaid SWWPRW
Cymdeithas Prifysgolion Dysgu Gydol Oes
University and College Union
Consortiwm Rhyngwladol Cymru
Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru
Partneriaid WMWRW

4. Ym mis Ionawr a Chwefror 2009, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru, ac roedd aelodau o'r grŵp adolygu'n bresennol ym mhob un:

   - Cynhaliwyd dwy sesiwn ffocws dros ginio, un yn y gogledd a'r llall yn y de, i geisio mewnbwn gan arweinwyr busnes i'r Adolygiad AU. Hwyluswyd y rhain gan Busnes yn y Gymuned.

   - Trefnwyd digwyddiad diwrnod cyfan i randdeiliaid ynghylch addysg uwch ran amser ac ehangu mynediad gan NIACE Dysgu Cymru. Roedd oddeutu 60 o gynadleddwyr yn bresennol, yn cynnwys cynrychiolwyr AB ac AU, cyflogwyr, eiriolwyr dysgu, cynrychiolwyr cyflogwyr.

   - Cynhaliwyd tair sesiwn ffocws gyda myfyrwyr, ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Morgannwg. Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wnaeth drefnu'r digwyddiadau hyn.

5. Gwnaethpwyd cyfres o gyflwyniadau i'r Grŵp Adolygu AU, gan randdeiliaid yn cynnwys CCAUC, Addysg Uwch Cymru a Fforwm. Cynhaliwyd cyfarfod ar wahân rhwng yr Ysgrifenyddiaeth a CHEW a rhoddwyd adborth i'r grŵp.

6. Hefyd, cynhaliodd aelodau'r ysgrifenyddiaeth gyfarfodydd â swyddogion o DIUS a Llywodraeth yr Alban, er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'n ymwneud ag adolygu AU yn y gweinyddiaethau hynny.

Atodiad 2: Trosolwg o Addysg Uwch yng Nghymru Heddiw

1 Caiff addysg uwch yng Nghymru ei ddarparu mewn deuddeg sefydliad AU, yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae'r sefydliadau ar wasgar yn ddaearyddol gyda chwech yn y de ar hyd coridor yr M4 rhwng Abertawe a Chasnewydd. Mae un brifysgol wedi'i lleoli yn y canolbarth ar yr arfordir, un yn y gogledd orllewin, un yn y gogledd ddwyrain ac mae dau sefydliad yn y de orllewin sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau a'r gwyddorau. Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig ei ddarpariaeth ledled Cymru, yn bennaf drwy gyfrwng dysgu o bell. Mae 5 sefydliad AB arall yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth a gyllidir yn uniongyrchol gan AU, ac mae nifer fwy yn darparu rhaglenni AU drwy drefniadau ar y cyd â sefydliadau AU yng Nghymru.

2 Mae'r sector AU yn cynnwys:

- 1 brifysgol fawr cyn 1992[5] sy'n aelod o Grŵp Russell o sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ymchwil (Prifysgol Caerdydd);
- 3 prifysgol o faint canolog cyn 1992 sy'n cael eu harwain gan ymchwil (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Abertawe);
- 1 brifysgol fawr ôl-1992 (Prifysgol Morgannwg, sydd bellach yn ymgorffori Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru);
- 4 prifysgol lai ôl-1992 (Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru Casnewydd, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd);
- 2 SAU bach yn canolbwyntio mwy ar y celfyddydau a'r gwyddorau (Coleg Prifysgol y Drindod, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan); (pan oedd yr adroddiad hwn yn cael ei gwblhau, roedd y ddau sefydliad hyn wedi cytuno i ffurfio sefydliad newydd, Prifysgol Cymru; Y Drindod Dewi Sant); a'r
- Brifysgol Agored yng Nghymru.

3 Hefyd, ceir Prifysgol Cymru sydd yn y gorffennol wedi bod yn gorff dyfarnu graddau'n bennaf ar gyfer y rhan fwyaf o fyfyrwyr yng Nghymru, yn ogystal â rhai sefydliadau yn y Deyrnas Unedig a thramor. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon yn newid yn gyflym wrth i nifer o SAU yng Nghymru gymryd camau i ddyfarnu eu grantiau eu hunain ac, yn y dyfodol agos, ni fydd y rhelyw o fyfyrwyr yng Nghymru'n astudio ar gyfer graddau Prifysgol Cymru.

[5] Cyflwynodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fesurau i ganiatáu llawer o'r hen golegau polytechnig a sefydliadau addysg uwch i ddod yn brifysgolion.

Ffigur 1: Lleoliadau sefydliadau AU yng Nghymru [6] (a SAU cyfagos yn Lloegr hefyd)

[6] Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Brifysgol Morgannwg; Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru'n byw ledled Cymru ac maent yn astudio'n rhan amser drwy gyfrwng dysgu o bell

4 Mae maint sefydliadau'n amrywio'n sylweddol fel y dangosir yn Ffigurau 2 a 3.

Ffigur 2: Cyfanswm nifer y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn (CALl) sydd wedi cofrestru mewn SAU yng Nghymru (2007/8)[7]

	Cofrestriadau Amser llawn	Cofrestriadau Rhan Amser	Cyfanswm Cofrestriadau	CALI
Prifysgol Caerdydd	19,480	7,105	26,585	23,045
Prifysgol Morgannwg*	12,815	9,895	22,710	15,590
Prifysgol Abertawe	10,380	3,495	13,875	11,335
Prifysgol Bangor	8,020	2,495	10,515	8,325
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	7,870	2,035	9,900	8,330
Prifysgol Aberystwyth	6,795	3,070	9,865	7,470
Prifysgol Cymru, Casnewydd	3,785	5,335	9,120	6,055
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	3,555	2,035	5,595	4,320
Prifysgol Glyndŵr	2,755	4,505	7,265	4,230
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	1,475	6,410	7,885	2,750
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	5	7,100	7,105	2,580
Coleg Prifysgol y Drindod	1,285	940	2,225	1,570

** yn cynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru*

Ffigur 3: Trosiant SAU yng Nghymru (£000au, 2007/8)[8]

Prifysgol Caerdydd	393,545
Prifysgol Abertawe	143,445
Prifysgol Morgannwg*	131,301
Prifysgol Bangor	107,151
Prifysgol Aberystwyth	95,276
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	70,597
Prifysgol Cymru, Casnewydd	42,746
Prifysgol Glyndŵr	33,969
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	31,398
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	15,897
Coleg Prifysgol y Drindod	14,224
Cofrestrfa Prifysgol Cymru	10,611
Y Brifysgol Agored yng Nghymru**	AMH

[7] Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA
[8] Ffynhonnell: CCAUC

** yn cynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru*

*** Mae ffigurau'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cael eu cynnwys o fewn strwythurau'r Brifysgol Agored y DU gyfan.*

5 Yn 2007/08, cofrestrodd 132,645 o fyfyrwyr mewn SAU yng Nghymru (yn cynnwys y Brifysgol Agored), ac roedd 78,220 (58%) ohonynt yn astudio'n llawn amser a 54,430 (41%) yn rhan amser. Roedd dros hanner yr holl fyfyrwyr dros 25 oed. Mae'r data cynnar ar gyfer 2007/08 yn dangos gostyngiad o 2% yn nifer y cofrestriadau addysg uwch mewn SAU yng Nghymru o'i gymharu â 2006/07, gyda nifer y cofrestriadau amser llawn yn cynyddu 1%, a chofrestriadau rhan amser yn disgyn 6%.

6 Mae Cymru'n fewnforiwr net o fyfyrwyr addysg uwch llawn amser sy'n preswylio yng ngweddill y DU: yn 2007/08, roedd 19,110 o fyfyrwyr sy'n preswylio yng Nghymru mewn SAU yn y DU y tu allan i Gymru, tra bod 28,005 o fyfyrwyr o'r DU y tu allan i Gymru yn astudio yng Nghymru. Mae cyfran y myfyrwyr sy'n byw gartref yn is mewn SAU yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Fodd bynnag, mae'r gyfran hon wedi cynyddu o 62% i 66% er 2001/2002.

7 O ran y perfformiad ar ehangu mynediad i AU ymysg myfyrwyr nad ydynt o gefndir traddodiadol, dyma beth mae'r ffigurau yng Nghymru'n eu dangos:[9]

- roedd 93% o newydd-ddyfodiaid ifanc llawn amser ar raglenni gradd gyntaf yn 2006 wedi bod mewn ysgolion y wladwriaeth, o'i gymharu â 88% yn y DU.
- roedd 10% o newydd-ddyfodiaid ifanc llawn amser a 12.5% o newydd-ddyfodiaid aeddfed llawn amser ar raglenni gradd gyntaf o gymdogaethau â chyfranogaeth isel. Wrth gyfri newydd-ddyfodiaid ifanc ac aeddfed at ei gilydd, mae gan SAU yng Nghymru y gyfran uchaf yn y DU o fyfyrwyr llawn amser sy'n dilyn rhaglenni gradd gyntaf o gymdogaethau â chyfranogaeth isel.
- Roedd 12% o newydd-ddyfodiaid ifanc israddedig rhan amser a 7% o newydd-ddyfodiaid aeddfed israddedig rhan amser o gymdogaethau â chyfranogaeth isel. Mae'r rhain yn debyg i'r ffigurau ar gyfer y DU, sef 12% a 6% yn y drefn honno.
- Roedd 5% o fyfyrwyr gradd llawn amser yn cael lwfans myfyrwyr anabl (y gyfradd uchaf yn y DU).

8 O safbwynt y cyfraddau gadael cwrs AU ar ei hanner yng Nghymru, mae'r wybodaeth ddiweddaraf (2005/06) yn dangos bod 8% o newydd-ddyfodiaid ifanc llawn amser ar eu gradd gyntaf mewn SAU yng Nghymru yn rhoi'r gorau iddi cyn yr ail flwyddyn, a 15% o newydd-ddyfodiaid aeddfed llawn amser ar eu gradd gyntaf yn gwneud hynny.

[9] Ffynhonnell: HESA (Dangosyddion Perfformiad mewn Addysg Uwch yn y DU, 2006/7)

Mae'r ffigurau hyn yn uwch nag yng ngweddill y DU (y ffigurau cymharol yw 7% a 14%).

9 Enillwyd 35,185 cymhwyster AU mewn SAU yng Nghymru yn 2007/08. O'r rhain, roedd 10,750 ar lefel ôl-radd, 18,815 ar lefel gradd gyntaf a 5,620 ar lefel "israddedig arall".

10 Daw oddeutu 15 y cant o fyfyrwyr sy'n mynychu prifysgolion yng Nghymru o'r tu allan i'r DU ac mae 10 y cant o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

11 Mae'r ffigurau diweddaraf (2006/07) yn nodi bod 4080 (3%) o'r holl fyfyrwyr a gofrestrodd mewn SAU yng Nghymru yn cynnwys rhywfaint o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

12 Yn 2007/08, buddsoddodd Llywodraeth y Cynulliad £419m drwy CCAUC i gefnogi AU yng Nghymru. Ar draws y sector AU yng Nghymru, 38.45% yw cyfran yr incwm sy'n deillio o grant CCAUC ac mae'n amrywio o un sefydliad i'r llall, o 32% (Prifysgol Caerdydd) i 53% (Prifysgol Fetropolitan Abertawe).[10] Yn Lloegr, y Cyfartaledd yw 35.47%, sy'n dynodi bod sefydliadau yng Nghymru'n dibynnu ychydig yn fwy ar grantiau'r cyngor cyllido o'i gymharu â Lloegr.

13 Yn ôl cyfrifiadau CCAUC, mae cyllid gan y llywodraeth fesul pob myfyriwr cyfwerth ag amser llawn (gelwir hwn yn gymorth grant) yn £5450 yng Nghymru, o'i gymharu â £6287 yn Lloegr a £8040 yn yr Alban (2006/7).

14 Nododd Ymarferiad Asesu Ymchwil y DU Gyfan, a gynhaliwyd yn 2008, fod 14% o'r ymchwil a wneir yng Nghymru ar flaen y gad yn fyd-eang a bod 35% ohono'n rhagorol ar lefel ryngwladol. Mae hyn yn cymharu â 18% a 37%, yn eu tro, yn Lloegr a 15% a 37% yn yr Alban.

15 Llwyddodd SAU yng Nghymru gystadlu'n llwyddiannus i ddenu gwerth £131.3m o incwm yn 2006-07, £35.6m ohono o Gynghorau Ymchwil y DU (ffigurau 2006/07). Mae hyn yn cynrychioli 3.1% o gyfanswm y cyllid a ddosbarthwyd gan Gyngor Ymchwil y DU y flwyddyn honno. Nododd Ymarferiad Asesu Ymchwil 2008 lawer o feysydd sy'n rhagorol ar lefel ryngwladol yng Nghymru, ond dangosodd hefyd na welwyd cynnydd cyffredinol sylweddol o'i gymharu â Lloegr a'r Alban ers Ymarferiad 2001.

16 Mae dau enillydd gwobr Nobel yn gweithio mewn SAU yng Nghymru, yr Athro Syr Martin Evans a'r Athro Robert Huber, ill dau yn gweithio yn Ysgol Biowyddorau Prifysgol Caerdydd.

17 Mae SAU yng Nghymru'n cynnal nifer o ganolfannau ymchwil mawr, a gyllidir yn rhyngwladol ac sydd ag enw da yn rhyngwladol, yn cynnwys, ymysg eraill:

[10] Dadansoddiad o sefyllfa Ariannol y sector AU 2007/08, CCAUC, Ebrill 2009

- Canolfan y Cyngor Ymchwil Meddygol mewn Geneteg Niwroseiciatreg a Genomau;
- Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth;
- Y grant partneriaeth a noddir gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol rhwng Prifysgolion Abertawe a Chaerdydd ar 'Hylifau Cymhleth a Llifau Cymhleth';
- Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth i Wella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), rhwng Prifysgolion Caerdydd, Abertawe a Bryste;
- Canolfan dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor.

18 Mae SAU hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran ymelwa ar eu hymchwil, ei fasnacheiddio a'i drosglwyddo i fusnesau. Ceir llawer o ddulliau o asesu perfformiad yn y maes hwn, ond yn gyffredinol, mae Cymru'n ymddangos ei bod yn perfformio'n gredadwy o'i gymharu â Lloegr. Yn 2006/7, roedd SAU yng Nghymru'n cyfrif am 4.8% o'r holl gontractau ymgynghori rhwng addysg uwch a busnes yn y DU (£14m), 13.2% o'r holl fusnesau deilliedig a busnesau newydd gan staff a ffurfiwyd yn ffurfiol y flwyddyn honno (38) a 6.4 % o'r holl batentau gweithredol (cyfanswm o 684)[11].

19 Mae oddeutu 19,000 o bobl yn cael eu cyflogi gan SAU yng Nghymru. Mae 70% ohonynt yn llawn amser. Cyfanswm incwm y sector yn 2007-08 oedd £1.09 biliwn ac felly mae'n chwaraewr allweddol yn nhermau economi Cymru.

[11] Ffynhonnell: HEFCE (Arolwg 'Higher Education – Business and Community Interaction' 2006/07).

Atodiad 3: Aelodaeth a Chylch Gorchwyl

Yr Athro Merfyn Jones (Cadeirydd)	Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor
Yr Athro Danny Saunders	Prifysgol Morgannwg
Roger Thomas OBE	Cadeirydd, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Rob Humphreys	Cyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Yr Athro Robin Williams	Ysgol Beirianneg, Prifysgol Abertawe
Alison Itani	Cyfarwyddwraig Wiltan Ltd
Louise Casella	Cyfarwyddwraig Datblygiad Strategol, Prifysgol Caerdydd
Ben Gray	Llywydd, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru

Cylch Gorchwyl yr Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru

Cyd-destun: Caiff Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei sefydlu i gynnal adolygiad dau gam o addysg uwch yng Nghymru.

Bydd cam cyntaf yr arolwg, a fydd yn dod i ben erbyn diwedd mis Medi 2008, yn ystyried trefniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru: i ba raddau y mae cyllid myfyrwyr wedi'i dargedu i wella cyfleoedd i ehangu mynediad ac yn annog myfyrwyr i ddilyn pynciau â blaenoriaeth; sut orau i fynd i'r afael â dyled myfyrwyr gyda golwg ar yr adolygiad capio ffioedd yn Lloegr; a sut orau i gyflawni hyn drwy gyllid myfyrwyr statudol cenedlaethol, bwrsarïau a roddir yn lleol, ysgoloriaethau ac ati.

Bydd yr ail elfen yn canolbwyntio ar adolygu cenhadaeth, diben, swyddogaeth a chyllid ar gyfer addysg uwch yng Nghymru gan ystyried y weledigaeth a nodwyd yn *Ymgeisio yn Uwch* a *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru;* gwaith parhaus yn Lloegr a'r Alban, dadansoddiad o'r anghenion economaidd a chymdeithasol yn ogystal ag anghenion y dysgwr yn y presennol ac wrth edrych tua'r dyfodol. Dylai'r elfen hon ddod i ben erbyn diwedd mis Chwefror 2009.

Rhesymeg: *Ymestyn yn Uwch* yw strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sector addysg uwch cystadleuol, cadarn a chynaliadwy yng Nghymru Mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer sector cynhwysol gydag enw da yn fyd-eang, a'r camau i gyflawni hynny, gan bennu llwybr clir ar gyfer y Llywodraeth,

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a'r sector addysg uwch yng Nghymru tan 2010.

Ers ei gyhoeddi yn 2002, cafwyd nifer o ddatblygiadau strategol pwysig yn cynnwys *Cymru'n Un, Creu'r Cysylltiadau, Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith, y Strategaeth Wyddoniaeth* a *Cymru: Economi yn Ffynnu*. Gan fod adroddiad Adolygiad Webb *Addewid a Chyflawniad,* adroddiad Adolygiad Gibson *Adolygiad Annibynnol o Fasnacheiddio yng Nghymru*, a chynigion y *Strategaeth Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar, mae'n amser da i roi gwedd newydd ar y strategaeth yng ngoleuni'r agendau newydd hyn a sicrhau ei bod yn gallu ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd niferus a wynebir gan addysg uwch.

Cylch gwaith: Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn adolygu polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch gyda'r bwriad o gynghori'r Llywodraeth ar weledigaeth a strategaeth newydd a fydd yn galluogi darpariaeth addysg uwch yng Nghymru—yn cynnwys ei sylfaen ymchwil—i ddiwallu anghenion cymdeithas gynhwysol ac economi fodern, sy'n seiliedig ar wybodaeth ac sy'n gystadleuol yn fyd-eang. Yn y cyd-destun hwn, bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn ystyried cyfleoedd i fod yn fwy ymatebol i angen a nodwyd, asesu'r potensial ar gyfer dulliau newydd o ddarparu, a gwerthuso i weld a all ymchwil a datblygu a throsglwyddo gwybodaeth gyfrannu at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru.

Materion cyffredin i Gam 1 a 2.

Yn nau gam yr Adolygiad, bydd y Grŵp yn canolbwyntio ar ddarparu fframwaith a fydd yn sicrhau bod:

- y dysgwr yn cael yr amrediad ehangaf posibl o gyfleoedd i gael mynediad at addysg uwch ledled Cymru, yn cynnwys datblygu ymhellach ddulliau arloesol o gynnig mynediad, achredu dysgu blaenorol ac archwilio'r posibilrwydd o ddarparu ac asesu addysg uwch yn y gweithle:

- pob dysgwr sy'n dilyn darpariaeth addysg uwch yng Nghymru, a myfyrwyr sy'n preswylio yng Nghymru ond sy'n dewis astudio yn rhywle arall yn y DU, yn gallu cael mynediad at raglenni a meithrin sgiliau sy'n helpu ac yn gwella eu posibilrwydd o yrfa a chyflogaeth, gan ganolbwyntio ar anghenion sgiliau Cymru ac ar ganlyniadau cyflogaeth; a bod

- y sector yn gallu chwarae rhan flaenllaw a chyfrannu at ddatblygiad a darpariaeth cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a darparu sgiliau Cymraeg.

Yng Ngham 1, bydd angen i gyngor y Grŵp ystyried y canlynol yn benodol:

- y goblygiadau sy'n deillio o Adolygiadau Rees a Graham;

- i ba raddau y mae ‘cyllid myfyrwyr’ wedi’i dargedu at wella cyfleoedd o ran ehangu mynediad. (Dylid ystyried ‘cyllid myfyrwyr’ yn yr adolygiad o safbwynt cyllid myfyrwyr statudol, a ddarperir drwy ‘Cyllid Myfyrwyr Cymru’ a’r cymorth dewisol sydd ar gael i fyfyrwyr o ffynonellau eraill, megis Sefydliadau Addysg Uwch ac Awdurdodau Lleol);

- i ba raddau y mae cyllid myfyrwyr yn annog myfyrwyr i ddilyn pynciau â blaenoriaeth, a sut y dylid diffinio’r rhain;

- yr angen i ganfod dewisiadau er mwyn helpu i fynd i’r afael â dyled graddedigion;

- yr angen i werthuso argymhellion yn erbyn ystyriaethau cyllidebol ac ariannol; a’r

- angen i sicrhau bod y cam hwn o’r adolygiad yn dod i ben erbyn mis Medi 2008 er mwyn dylanwadu ar y trefniadau cyllid myfyrwyr statudol ar gyfer y garfan gyntaf o fyfyrwyr yn y flwyddyn academaidd 2010/11.

Yng Ngham 2, bydd angen i gyngor y Grŵp ystyried y canlynol:

- blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru a nodir yn *Cymru’n Un* a strategaethau allweddol eraill megis *Creu’r Cysylltiadau, y Strategaeth Wyddoniaeth* a *Cymru: Economi sy’n Ffynnu* ac yn enwedig *Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru* a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2008;

- y goblygiadau sy’n deillio o adolygiadau annibynnol perthnasol blaenorol megis Adroddiad Webb, Adolygiad Gibson, ac Adolygiadau Rees a Graham; a

- chymharu â datblygiadau polisi addysg uwch sy’n dod i’r golwg yn y gwledydd cartref eraill, yn Ewrop ac yn fyd-eang.

Yn benodol, bydd y Grŵp yn yr ail gam yn canolbwyntio ar ddarparu fframwaith a fydd yn sicrhau bod:

- Addysg Uwch yng Nghymru’n cael ei gyfeirio, ei gefnogi a’i leoli yn y fath fodd fel y gall ganolbwyntio ar ragoriaeth, ar fod yn gystadleuol, ac ar fod yn effeithlon ym marchnad y DU ac yn y farchnad fyd-eang;

- Addysg Uwch yng Nghymru’n ymatebol i ofynion ac anghenion dysgwyr, yr economi a chymdeithas yn y presennol ac i’r dyfodol;

- partneriaeth a chydweithrediad yn cael eu hannog ac yn dod yn elfen hanfodol o ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru, boed hynny rhwng sefydliadau addysg uwch, gyda darparwyr eraill megis y sector addysg bellach, neu gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, megis cyflogwyr;

- sylfaen ymchwil addysg uwch yng Nghymru'n benodol yn gallu cyfrannu at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol mewn ffordd sy'n ymateb i anghenion busnes a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at yr economi a chymdeithas drwy wneud gwaith hanfodol o ran ymchwil a datblygu a throsglwyddo gwybodaeth, yn cynnwys masnacheiddio ymchwil;

- ystyriaeth yn cael ei rhoi i werthuso i ba raddau y mae darpariaeth yn ymateb i anghenion cyflogwyr a chyflogaeth yng Nghymru, yn ogystal â chyflwyno darpariaeth genedlaethol mewn meysydd pwnc allweddol;

- argymhellion yn cael eu rhoi ar gyfer nifer llai o dargedau sy'n canolbwyntio fwy ar ganlyniadau ar gyfer addysg uwch am y 5 mlynedd nesaf;

- addysg uwch yn cael ei chefnogi i barhau i ddatblygu ei chyfraniad at fywyd diwylliannol Cymru a'r Deyrnas Unedig;

- y fframwaith cyllido ar gyfer addysg uwch yng Nghymru'n adlewyrchu cyfraniad myfyrwyr, Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), cyflogwyr, ffrydiau ariannol yr UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cydraddoldeb

Bydd angen i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fod yn ymwybodol o egwyddorion cyfle cyfartal, a pholisïau Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â hil, anabledd, hyrwyddo dwyieithrwydd, datblygu cynaliadwy a chyfiawnder cymdeithasol.

Tystiolaeth, Adrodd a Chefnogaeth.

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ceisio mewnbwn gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog PADGOS, a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, ar adegau penodol yn ei adolygiad a bydd yn ceisio sylwadau ar yr adroddiadau drafft gan y ddau grŵp. Bydd hefyd yn ceisio tystiolaeth gan arbenigwyr a rhanddeiliaid allanol a bydd yn ceisio tystiolaeth, barn a safbwyntiau'n benodol gan swyddogion ac aelodau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Lle bo hynny'n bosibl, caiff busnes y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei drefnu o gwmpas ymrwymiadau eraill yr aelodau.

Gofynnir i'r Cadeirydd lunio dau adroddiad i adlewyrchu'r ddwy elfen o waith y Grŵp. Caiff yr adroddiad cyntaf ar y cwestiynau am ddiwygio trefniadau cyllid myfyrwyr ei gyhoeddi ddiwedd mis Medi 2008. Bydd yr ail Adroddiad yn canolbwyntio ar genhadaeth, diben a chyllid ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru ac fe gaiff ei gynhyrchu ddiwedd mis Chwefror 2009. Caiff y ddau adroddiad eu cyflwyno i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Cynorthwyir y grŵp gan dîm dynodedig o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gallant gomisiynu ymchwil annibynnol yn ôl yr angen.